Estyn

estyn.gov.uk

# Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2

Mai 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| Safonau yn y celfyddydau creadigol | 3 |
| Darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol | 3 |
| Arweinyddiaeth a’r celfyddydau creadigol | 4 |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Safonau** | **7** |
| Safonau yn y celfyddydau creadigol | 7 |
| Yr effaith ar safonau a lles mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm | 9 |
| **Darpariaeth** | **13** |
| Darpariaeth a threfniadaeth y cwricwlwm | 13 |
| Ansawdd addysgu | 22 |
| Darpariaeth allgyrsiol | 28 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **32** |
| Gweledigaeth arweinwyr | 32 |
| Arweinwyr pwnc ar gyfer y celfyddydau | 34 |
| Recriwtio a defnyddio staff | 37 |
| Cyllid, hyfforddiant a phartneriaethau | 38 |
| **Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth** | **42** |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | **43** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **44** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr chylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2013-2014. Mae'r adroddiad yn archwilio safonau a darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 mewn ysgolion lle mae arfer dda wedi'i nodi'n flaenorol.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gall hefyd fod o ddiddordeb i'r rheini sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd drwy awdurdodau esgobaethol; athrawon dan hyfforddiant; a'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau'r celfyddydau a threftadaeth ddiwylliannol.

Nid yw'r adran o'r adroddiad ar safonau cyflawniad yn cynrychioli darlun cenedlaethol am fod y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn fach, ac mae'n canolbwyntio ar ysgolion â darpariaeth gadarn ar gyfer agweddau amrywiol ar y celfyddydau creadigol.

Mae'r adroddiad yn ystyried yr ymatebion i arolwg electronig, a gomisiynwyd gan Estyn yn hydref 2014, pan ofynnwyd i sampl ar hap o ysgolion ledled Cymru ynglŷn â'u darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol. Lle bo'n briodol, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys tystiolaeth o ganfyddiadau arolygu.

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o arfer orau i ysgolion eraill eu hystyried. Bwriedir i'r rhain ysgogi trafodaethau mewn ysgolion a rhwng ysgolion er mwyn hyrwyddo arfer orau mewn addysgu a dysgu ar hyd a lled Cymru.

At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r term 'celfyddydau creadigol 'yn cynnwys celf a dylunio, dawns, drama a cherddoriaeth.

## Cefndir

Mae celf a dylunio a cherddoriaeth yn bynciau sylfaen gorfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru yng nghyfnod allweddol 2. Mae dawns yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn addysg gorfforol (AG), ac mae drama yn elfen o fewn y cwricwlwm ar gyfer Saesneg a Chymraeg. Hefyd, o dan Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion.

Mae darpariaeth ysgolion ar gyfer y celfyddydau creadigol yn cyd-fynd â'r cyd-destun addysgol ehangach yng Nghymru, sy'n cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- gwella safonau llythrennedd a rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol
- gweithredu cynllun ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol yng Nghymru

Lluniodd yr Athro Dai Smith adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 'Y Celfyddydau

mewn Addysg yn Ysgolion Cymru' ym Medi 2013. Rhoddir y prif faterion o'r adroddiad isod:

- Yng Nghymru, yn ddiau, mae rhywfaint o ddarpariaeth ragorol mewn addysg y celfyddydau ragorol yn cael ei chynnig yn ein hysgolion, ond mae'r ddarpariaeth honno'n fylchog
- Mae'r gwaith hwn yn aml yn deillio o arweinyddiaeth eithriadol
- Dylai'r gwaith gael ei hyrwyddo, ei ddeall a'i rannu
- Ar lefel uwchradd, yn rhy aml ceir cyfyngiadau ar waith creadigol, sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau ar draws y cwricwlwm, nad ydynt mor amlwg mewn ysgolion cynradd

Mae'r Athro Smith yn dadlau y dylid cyflwyno 'llu o brofiadau celfyddydol i fyfyrwyr… er mwyn gwneud pob ysgol yng Nghymru yn ysgol sy'n gyfoethog o ran y celfyddydau o ran cyflawniad neu uchelgais', a gwnaeth 12 o argymhellion i integreiddio'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fwy effeithiol mewn addysg. Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2014.

Ym Mawrth 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol i Gymru. Pwrpas y cynllun hwn yw 'creu newid sylweddol yn ystod ac ansawdd y cyfleoedd a roddir i blant a phobl ifanc yng Nghymru gael dysgu am ddiwylliant a'r celfyddydau, a chymryd rhan ynddynt'. Cyflawnir hyn drwy waith partneriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Gellir cael mwy o fanylion am Gynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol ar wefan Llywodraeth Cymru[1]. Hefyd, gellir gweld rhagor o enghreifftiau o astudiaethau achos arfer orau o weithio mewn partneriaeth ar wefan Dysgu Cymru.[2]

Yn 2006, cyhoeddodd Estyn arfarniad o'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth yng Nghymru (Estyn 2006). Nododd hwn gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael hyfforddiant cerdd o ganlyniad i'r gronfa, y safonau y maent yn eu cyflawni a'r niferoedd sy'n astudio cerddoriaeth ar gyfer arholiadau cyhoeddus. Mae'r gronfa wedi dod i ben erbyn hyn ac ariennir gwasanaethau cerdd drwy'r grant cymorth refeniw i awdurdodau lleol.

[1] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/creative-learning-through-the-arts/?skip=1&lang=cy

[2] http://learning.gov.wales/news/sitenews/arts-in-education-case-studies/?skip=1&lang=cy

## Prif ganfyddiadau

### Safonau yn y celfyddydau creadigol

1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae safonau'n dda o leiaf mewn dwy neu fwy o ffurfiau'r celfyddydau creadigol (celf a dylunio, dawns, drama a cherddoriaeth). Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae safonau yn y naill neu'r llall o ffurfiau'r celfyddydau creadigol ymhell uwchlaw hynny a ddisgwylir. Fodd bynnag, anaml y bydd safonau yn uchel ym mhob un o'r pedair celfyddyd greadigol mewn unrhyw un ysgol.

2 Mae safonau lles disgyblion ym mron pob un o'r ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw yn dda neu'n rhagorol. Dywed disgyblion a staff yn yr ysgolion hyn fod y celfyddydau creadigol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella lles disgyblion.

3 Mae tystiolaeth dda gan lawer o ysgolion o effaith y celfyddydau creadigol o ran gwella safonau llefaredd disgyblion. Y rheswm am hyn yn rhannol yw bod ymgysylltiad buddiol â'r celfyddydau creadigol yn rhoi profiadau cyffrous i ddisgyblion siarad amdanynt. Yn aml, mae'r celfyddydau yn darparu cyd-destun ysgogol i ddisgyblion ei ddefnyddio ac i ddatblygu'u medrau llythrennedd, ond nid oes digon o dystiolaeth i ddangos bod y celfyddydau yn gwella perfformiad disgyblion yn uniongyrchol mewn darllen ac ysgrifennu.

### Darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol

4 At ei gilydd, mae ansawdd y cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol yn dibynnu gormod ar siawns yn hytrach nag ar gynllunio cadarn o ran y cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol yn dibynnu gormod ar ba un a oes athro brwdfrydig ar y staff sy'n meddu ar fedrau a gwybodaeth arbenigol. Er bod hyn yn aml yn sicrhau safonau uchel mewn un maes o'r celfyddydau creadigol, nid yw'n sicrhau safonau uchel ym mhob maes yn aml.

5 Gwelir y safonau gorau ymhlith disgyblion pan fydd eu hathrawon yn artistiaid creadigol gwybodus a hyderus, yn ogystal ag ymarferwyr da yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn brin o'r wybodaeth, y medrau a'r hyder i gyflwyno'r celfyddydau creadigol i'r lefel uchaf, yn enwedig erbyn Blwyddyn 6. Nid oes digon o hyfforddiant a chymorth ar gael i helpu athrawon i ddatblygu'u haddysgu yn y celfyddydau creadigol.

6 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r cynllunio ar gyfer y celfyddydau creadigol yn rhoi ystyriaeth dda i'r hyn y gall disgyblion eisoes ei wneud i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau yn gynyddol. Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, er bod cynlluniau athrawon yn darparu ehangder priodol o brofiadau ar draws y celfyddydau creadigol yn gyffredinol, nid yw'r profiadau yn adeiladu ar fedrau presennol disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, mae disgyblion yn cwblhau gweithgareddau nad ydynt yn gofyn digon nac yn cynnig her.

7 Yn y gwersi mwyaf llwyddiannus, mae gwybodaeth bynciol drwyadl a chynhwysfawr gan athrawon, a defnyddiant y wybodaeth hon i osod disgwyliadau uchel i

ddisgyblion. Maent yn addysgu gydag egni, rhediad da a brwdfrydedd, gan wybod pan fydd yn briodol ymyrryd neu herio, ac nid oes arnynt ofn caniatáu amser i ddisgyblion gyfnerthu eu dysgu. Mae athrawon yn annog disgyblion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i gymryd risgiau, fel eu bod weithiau yn dysgu o'u camgymeriadau. Defnyddiant ystod eang o adnoddau sydd wedi'u dewis yn dda, yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Lle mae'r addysgu yn llai llwyddiannus, nid yw gweithgareddau cynlluniedig yn herio disgyblion yn ddigon da, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Yn y gwersi gwannach hyn yn aml, mae athrawon yn cyfarwyddo ac yn cyfyngu'r dysgu gormod, ac mae ar ddisgyblion ofn arbrofi rhag iddynt gael pethau'n anghywir.

**Arweinyddiaeth a'r celfyddydau creadigol**

8 Yn yr ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn rhannu angerdd a gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol. Credant fod y celfyddydau creadigol yn ysbrydoli, yn ysgogi ac yn cymell disgyblion i feddwl â dychymyg, i ddyfalbarhau ac ymateb yn gadarnhaol i heriau. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd llawn dychymyg i gynnal proffil uchel ar gyfer y celfyddydau creadigol, er gwaethaf cyfyngiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a phwysau ar adnoddau ariannol. Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn nodi ei bod yn bosibl addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda o fewn y cwricwlwm cynradd. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae arweinwyr wedi lleihau'r amser a neilltuir i'r celfyddydau creadigol yn ddiweddar. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd eu bod yn credu bod neilltuo adnoddau i'r celfyddydau yn tynnu oddi wrth wella deilliannau mesuradwy mewn llythrennedd a rhifedd.

9 Mewn llawer o'r ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn darparu cynlluniau cynhwysfawr i gynorthwyo cydweithwyr i gyflwyno gwersi yn y celfyddydau creadigol. Mae'r cynlluniau gwaith hyn yn aml yn talu sylw da i ehanger o brofiadau creadigol difyr, ond yn yr enghreifftiau gwannach, nid yw'r cynlluniau yn talu digon o sylw i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Yn benodol, nid yw llawer o gynlluniau gwaith yn cyfeirio at y deunyddiau sy'n dangos y safonau disgwyliedig yn y celfyddydau creadigol. Mae arweinwyr pwnc ar gyfer y celfyddydau creadigol yn aml yn monitro'r ddarpariaeth yn eu pynciau yn ofalus ac yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer llywodraethwyr ac uwch arweinwyr. Er bod monitro yn arfarnu ac yn adrodd ar ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion , yn rhy aml nid yw'n arfarnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni nac yn dweud sut y gellid eu gwella.

10 Mae ychydig iawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn rhannu arfer orau yn y celfyddydau creadigol ac yn cydgyfrannu adnoddau. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn darparu gwersi enghreifftiol i ysgolion eraill eu harsylwi, ac maent yn cynnal neu'n cyflwyno sesiynau hyfforddi i gydweithwyr o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Fod bynnag, mae gormod o ysgolion yn gweithio ar eu pennau'u hunain ac nid ydynt yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill.

11 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu y gwnaed arolwg ohonynt yn cynnig gwersi cerdd offerynnol, er mai dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n manteisio ar y gwersi mewn rhyw chwarter o'r ysgolion. Nid yw tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn codi tâl ar ddisgyblion am wersi offerynnol, ond mewn ychydig iawn o ysgolion disgwylir i bob disgybl dalu cost lawn hyfforddiant

offerynnol.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion o deuluoedd tlotach yn dewis dysgu chwarae offeryn cerdd, am fod y gost yn rhy uchel.

12 Caiff ymweliadau â safleoedd treftadaeth a theatrau effaith sylweddol iawn ar ddysgu disgyblion.  Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi'n ofalus ar gyfer yr ymweliadau fel bod y disgyblion yn elwa gymaint â phosibl ar y profiad, ac maent yn dilyn i fyny ar ddysgu disgyblion yn gyflym pan fyddant yn ôl yn yr ysgol.   Mae bron pob un o'r ysgolion yn yr arolwg yn mynd â disgyblion ar deithiau ac ymweliadau, neu'n derbyn ymwelwyr i'r ysgol, yn gysylltiedig â'r celfyddydau creadigol.  Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion arfer orau, mae arweinwyr yn sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai o deuluoedd tlotach, yn cymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau drwy leihau neu hepgor costau.  Fodd bynnag, mae ymatebion o ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn dangos nad yw hyn yn digwydd bob tro.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau yn y celfyddydau creadigol:**

**Dylai ysgolion:**

A1 Gynllunio dilyniant o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion er mwyn iddynt gael profiad o ehangder y celfyddydau creadigol a datblygu'u medrau creadigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol

A2 Cefnogi athrawon i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r hyder i addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda

A3 Monitro cyflawniadau disgyblion yn y celfyddydau creadigol

A4 Gweithio'n agosach ag ysgolion eraill i rannu arfer orau ac adnoddau yn y celfyddydau creadigol

**Dylai awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol:**

A1 Gynnig cyfleoedd i athrawon ddatblygu'u medrau a'u hyder wrth addysgu un neu fwy o bynciau'r celfyddydau creadigol

A2 Darparu hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer orau mewn addysgu ac asesu yn y celfyddydau creadigol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Barhau i gynorthwyo ysgolion i wneud defnydd o gyllid penodedig i alluogi disgyblion o deuluoedd tlotach i ddysgu chwarae offerynnau cerdd ac i gymryd rhan lawn yn y celfyddydau creadigol

A2 Cyhoeddi deunyddiau sy'n dangos y safonau disgwyliedig yn y celfyddydau creadigol[3]

---

http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130508-english-guidence-en.pdf
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150313-art-and-design-guidance-cy.pdf
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-physical-education-guidance-cy.pdf
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130424-music-guidance-cy.pdf

## Safonau a arsylwyd mewn ysgolion arfer orau

### Safonau yn y celfyddydau creadigol

13 Mae safonau mewn celf a dylunio, dawns, drama a cherddoriaeth mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad yn unol â'r safonau neu uwchlaw'r safonau a ddisgwylir ar gyfer oed y disgyblion. Mae'r safonau yn gyffredinol well na'r disgwyl mewn un neu ddau o bynciau'r celfyddydau ym mhob ysgol, a hynny fel arfer o ganlyniad i arbenigedd a hyder aelod penodol o'r staff. Fodd bynnag, anaml y bydd safonau yn uchel ym mhob un o'r pedair celfyddyd greadigol mewn unrhyw un ysgol.

**Celf a dylunio**

14 Mewn celf a dylunio, ceir y safonau uchaf lle mae disgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u meistrolaeth gynyddol ar dechnegau yn raddol ac effeithiol. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn mwynhau gweithio'n hyderus gydag amrywiaeth eang o offer, deunyddiau a thechnegau. O ganlyniad, mae mwyafrif yn cyflawni safonau uwchlaw'r rheini a geir fel arfer ar gyfer eu hoed. Yn aml, maent yn gwneud defnydd da o ystod o gyfryngau a dulliau arddulliadol i gyfleu eu syniadau a'u teimladau gyda dychymyg ac yn greadigol. Mewn mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn gwneud lluniadau arsylwadol gofalus gyda phensil a siarcol, gan gyflawni effeithiau gwahanol drwy dywyllu, smwtsio a lliniogi. Maent yn arbrofi gyda phriodweddau gweledol a chyffyrddol gwahanol, er enghraifft creu llinellau a phatrymau â thonau, gweadau a thrwch gwahanol. Maent yn datblygu a mireinio'u medrau wrth ddefnyddio cyfryngau, er enghraifft i ganfod sut mae ychwanegu dŵr at baent yn creu effeithiau gwahanol wrth baentio afon. Mewn rhywfaint o'r arfer orau a welwyd, mae disgyblion yn dylunio ac yn gwneud delweddau dau ddimensiwn a ffurfiau tri dimensiwn. Gweithiant yn effeithiol ar ffabrigau gan ddefnyddio printio a batic. Maent yn arbrofi'n hyderus ac yn ddyfeisgar gyda chlai a deunyddiau modelu eraill, er enghraifft defnyddio mwydion papur yn fedrus i wneud modelau, masgiau a mosaigau, ac yn datblygu'u medrau crefft i safon dda.

15 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn defnyddio profiadau uniongyrchol fel ysgogiad ar gyfer eu celf. Maent yn gweithio o arsylwi, ond maent hefyd yn ceisio cipio profiadau amlsynhwyraidd fel ymweliad â safle treftadaeth lleol. Maent yn gwneud nodiadau, yn tynnu ffotograffau ac yn gwneud lluniadau yn y fan a'r lle i gofnodi'u profiadau. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, mae gwaith celf disgyblion yn adlewyrchu dylanwad astudiaethau o ddiwylliannau ethnig a chymunedol gwahanol, yn cynnwys celf werin Raongoli Indiaidd, dyluniadau inc Mehndi a phatrymau Ndebele Affricanaidd. Mae disgyblion yn cyflawni safonau da am eu bod yn cynllunio'u hymchwil yn dda ac yn astudio llu o enghreifftiau o'r ffurf gelfyddyd cyn rhoi cynnig ar eu dyluniadau eu hunain. Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, caiff gwaith celf disgyblion ei arddangos yn eang yng nghynteddau'r ysgol, coridorau ac ardaloedd cyffredin. Mae'r gwaith hwn yn aml yn deillio o destunau dosbarth a phrosiectau graddfa fawr sy'n elwa ar deithiau, wythnosau thema neu gyfnodau hyfforddi gan artistiaid. Mae amlygrwydd ac ansawdd y gwaith celf sy'n cael ei arddangos yn creu ethos ysgogol o fewn yr ysgol, ac mae'n gosod ac yn adlewyrchu safonau uchel mewn gwaith artistig.

16 Mewn ychydig o'r ysgolion eraill yr ymwelwyd â nhw, mae gwaith celf disgyblion yn dibynnu'n rhy drwm ar gopïo atgynyrchiadau o waith artistiaid. Mae'r disgyblion hyn yn aml yn gallu siarad yn wybodus am y dulliau a'r dibenion y maent wedi'u hastudio, ond yn rhy aml nid ydynt yn gallu defnyddio a chymhwyso'r technegau y maent wedi'u dysgu gyda dychymyg yn eu gwaith eu hunain. Mae ansawdd gwaith celf disgyblion yn dioddef yn aml pan na fyddant yn cael digon o amser yn eu gwersi celf i greu, yn hytrach na chopïo gweithiau celf yn unig. Ar brydiau, mae ansawdd gwaith yn dirywio pan na fydd disgyblion yn cael digon o gyfle i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Yn yr achosion hyn, maent yn aml yn dibynnu gormod ar yr athro trwy gydol y broses greadigol, neu mae'r athro yn canolbwyntio gormod ar annog disgyblion i berffeithio technegau yn hytrach na gweithio'n greadigol.

**Dawns**

17 Mewn dawns, mewn mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o ddisgyblion yn perfformio'n hyderus ac yn amlwg yn mwynhau, gan reoli'u symudiadau corff ac osgo yn dda. Maent yn gweithio ar y cyd mewn gwersi i gynllunio a dyfeisio perfformiadau annibynnol wedi'u strwythuro'n dda, yn seiliedig ar ysgogiad yn y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu'r gallu i gyfansoddi a pherfformio dilyniannau dawns byr sy'n gwneud defnydd da o dechnegau gweledol, er enghraifft gosod y corff ac edrychiadau'r wyneb. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol ac yn sensitif i genres cerddoriaeth gwahanol, gan ddefnyddio symudiadau corfforol wedi'u rheoli yn dda.

18 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw safonau mewn dawns wedi'u datblygu gystal ag yn y celfyddydau creadigol eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio patrymau symud syml yn effeithiol i ddyfeisio, arfarnu a mireinio dilyniannau symud. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn rhy gyfyngedig i alluogi disgyblion i ddatblygu a mireinio'r patrymau hyn ar draws ystod eang o genres a thechnegau dawns.

**Drama**

19 Mae safonau disgyblion mewn drama yn dda ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ac yn rhagorol mewn rhai ohonynt. Yn ystod y gwersi a arsylwyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da a chynnydd cyflym yn aml wrth ddatblygu'u medrau llefaredd. Mae hyn yn arbennig o nodedig ar gyfer disgyblion sy'n dechrau gyda lefelau cyfyngedig o leferydd ac iaith, sydd yn aml yn gwneud cynnydd cyflym er mwyn dal i fyny â'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd o ran caffael geirfa eang, defnyddio osgo ac ystum, ac maent yn datblygu hunanhyder a rheolaeth leisiol wrth siarad o flaen cynulleidfa. Lle mae athrawon yn fedrus, mae disgyblion hefyd yn datblygu safonau uchel mewn ystod eang o dechnegau dramatig, fel clownio, creu yn fyrfyfyr, gwaith cymeriadu ac astudio tafodiaith. Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a fu'n rhan o'r arolwg yn adrodd am fuddion penodol drama yn ychwanegol at bynciau eraill y celfyddydau creadigol, yn enwedig o ran gwella deilliannau disgyblion mewn llefaredd.

## Cerddoriaeth

20 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae safonau mewn canu ymhell uwchlaw'r lefelau a ddisgwylir ar gyfer oed y disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, erbyn Blwyddyn 6 ac yn gynharach yn aml, mae bron pob un o'r disgyblion yn canu repertoire eang o ganeuon yn rhugl, mewn tiwn, a chan roi sylw da i anadlu a brawddegu. Wrth ganu harmoni, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal rhan y maent wedi'i dysgu yn hyderus ac yn gywir. Mae mwyafrif yn gwrando ac yn ymateb yn sensitif i newidiadau yng nghanu disgyblion eraill, er enghraifft mewn dynameg neu newidiadau mewn cywair. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau perfformio sydd wedi'u datblygu'n eithriadol o dda mewn ffurfiau canu penodol, fel 'Cerdd Dant'[4].

21 Mewn ychydig o ysgolion, mae gwahaniaeth nodedig mewn safonau perfformio cerddoriaeth rhwng grwpiau o ddisgyblion. Mae'r rheini sy'n cael gwersi neu hyfforddiant ychwanegol mewn grwpiau bach mewn canu a gwaith offerynnol yn cyflawni safonau rhagorol yn aml. Bydd rhieni yn talu ffi am yr hyfforddiant ychwanegol yn aml. Yn amlach, mae'r hyfforddiant wedi'i dargedu'n benodol at ddisgyblion dynodedig y gall fod ganddynt ddawn neu dalent mewn cerddoriaeth. Ar brydiau, mae'r unigolion hyn yn cyflawni safonau rhagorol mewn perfformio offerynnol, o ganlyniad i wersi a ddarperir gan athrawon cerdd peripatetig fel arfer. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd ond yn cael eu hawl cwricwlwm sylfaenol yn aml yn cyflawni'r safonau disgwyliedig ar gyfer eu hoed.

22 Mewn agweddau eraill ar gerddoriaeth, mae safonau a arsylwyd mewn llawer o'r ysgolion arfer gorau yn dda. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfansoddi darnau byr, wedi'u strwythuro'n dda, ar gyfer ensembles dosbarth y byddant yn eu perfformio, eu recordio a'u harfarnu'n effeithiol. Maent yn perfformio eu cyfansoddiadau yn sensitif a chyda rheolaeth, gan ddefnyddio ystod addas o offerynnau'r ystafell ddosbarth ac offerynnau cerddorfaol. Erbyn Blwyddyn 6, mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o ffurf a strwythur cerddorol syml. Ar draws yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio lefel briodol o eirfa dechnegol i werthuso cerddoriaeth y maent wedi'i hysgrifennu neu'i chlywed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth yn effeithiol i gymharu a llunio barnau personol ynglŷn ag amrywiaeth o genres cerddoriaeth.

## Yr effaith ar safonau a lles mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm

23 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae safonau llefaredd disgyblion gystal neu'n well na safonau a geir ar gyfer eu hoed fel arfer. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw bod eu hymgysylltiad yn y celfyddydau creadigol yn rhoi toreth o brofiadau cyfoethog i ddisgyblion siarad amdanynt. Mae bron yr holl ddisgyblion yn siarad gydag argyhoeddiad am eu teimladau ynglŷn â mathau gwahanol o gelfyddyd. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn gallu dweud yn glir beth yw effaith y celfyddydau creadigol ar wella eu lles eu hunain, gan ddefnyddio geirfa aeddfed wedi'i dewis yn dda, a brawddegau ystyriol, arfarnol.

[4] Gweler yr eirfa

**Sut mae ymuno â Band Mawr yr ysgol yn gwella medrau llefaredd disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Iau Aberdaugleddau yn Sir Benfro yn ysgol cyfrwng Saesneg i ddisgyblion saith i 11 oed. Mae 347 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 29% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 31%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Cred arweinwyr yr ysgol fod disgyblion yn elwa o gael dysgu offeryn cerdd. Mae arweinwyr wedi nodi bod disgyblion sy'n dysgu chwarae offerynnau wedi gwella eu hunan-barch, ymddygiad, hunanhyder a medrau llefaredd. Mae'r ysgol yn dyrannu cyllid sylweddol o'i chyllideb fel y gellir gwahodd pob disgybl i ddysgu offeryn cerdd yn rhad ac am ddim. Fel rhan o'u dysgu, disgwylir i'r disgyblion hyn ymuno â Band Mawr yr ysgol sy'n cyfarfod yn wythnosol ar ôl ysgol. Ar hyn o bryd, mae rhyw 80 o chwaraewyr yn y band.

**Gweithredu**

Cyrhaeddodd Band Mawr Ysgol Iau Aberdaugleddau rownd derfynol cystadleuaeth flynyddol Music for Youth yn 2013. O ganlyniad, fe wnaethant deithio o Sir Benfro i Birmingham, I berfformio yn Neuadd Symffoni Birmingham.

**Deilliannau**

Mae aelodau'r Band Mawr yn siarad gyda balchder mawr ac angerdd ynglŷn â'u perfformiad. Er iddo gael ei gynnal dros flwyddyn yn ôl, maent yn amlwg yn gwerthfawrogi'r rhwystrau a'r llwyddiannau a wynebwyd ganddynt wrth godi arian ar gyfer y daith i Birmingham, ar gyfer y perfformwyr a'u teuluoedd. Maent yn disgrifio'u teimladau o edrych ymlaen a chyffro cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad, gyda brawddegau estynedig wedi'u llunio'n dda, ac ystod eang o eirfa. Maent yn cyfleu'n effeithiol iawn eu cyffro o weld cyfranogiad brwdfrydig y gynulleidfa wrth ymuno â pherfformiad y band o gymysgedd o ganeuon Tom Jones. Yn olaf, maent yn ystyried yn aeddfed pam y mae angen i'r band ymarfer yn rheolaidd, ac effaith eu hymarfer a'u gwersi cerdd personol ar berfformiad y band.

24 Lle mae disgyblion yn cyflawni safonau uchel mewn celf, maent yn ymchwilio i waith artistiaid er mwyn deall sut a pham y maent yn cynhyrchu'u gwaith. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd ac ysgrifennu yn effeithiol iawn wrth ddisgrifio celf, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa eang yn eu hymatebion personol, rhesymegol i weithiau celf. Gall disgyblion nodi elfennau ffurfiol celf (fel llinell, lliw a thôn) y bydd artistiaid yn eu defnyddio, a gallant siarad am ystyr y gwaith celf. Maent yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chanfod o siarad ac ysgrifennu am waith artistiaid i ddatblygu'u gwaith eu hunain, er enghraifft drwy ymchwilio i baentiadau artistiaid amrywiol o afonydd wrth greu eu gwaith eu hunain am Daith Taf.

25 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion arfer orau yn siarad yn angerddol am y mwynhad a gânt o gymryd rhan mewn ymarferion a chlybiau ar ôl ysgol, yn enwedig pan fyddant yn paratoi ar gyfer perfformiad neu arddangosfa. Mae bron yr holl ddisgyblion yn disgrifio effaith gadarnhaol perfformio (trwy ddawns, drama a cherddoriaeth) o flaen cynulleidfa. Er bod llawer yn dweud eu bod yn nerfus cyn perfformiad, mae'r rhan fwyaf yn dweud bod eu nerfau'n diflannu wrth iddynt ddechrau mwynhau cymryd rhan a dod yn ganolbwynt sylw. Yn ddieithriad, mae'r disgyblion hyn yn dweud eu bod am berfformio drosodd a throsodd eto. Mae bron pob un o'r disgyblion yn nodi bod eu profiad yn eu helpu i deimlo'n hyderus mewn agweddau eraill ar fywyd ysgol, er enghraifft wrth gyflwyno i'w cyfeillion yn y dosbarth neu wrth gyfrannu at ddadl neu drafodaeth. Fodd bynnag, mewn un ysgol, mae arweinwyr yn dweud bod ychydig iawn o ddisgyblion yn teimlo bod y celfyddydau creadigol yn 'brofiad caled iddynt' ac nid ydynt yn mwynhau perfformio o flaen pobl.

**Defnyddio radio'r ysgol i ddatblygu medrau llefaredd disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol-Y-Wern yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae 500 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 16%. Mae'r cyfrannau hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae stiwdio recordio bwrpasol yn yr ysgol fodern hon ac mae ganddi ddigonedd o offer. Mae arweinwyr yn cynllunio gwaith i ddatblygu medrau annibyniaeth disgyblion a darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymarfer a datblygu'u medrau llefaredd. Mae'r orsaf radio yn darparu cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ddatblygu'u hunanhyder a'u medrau llefaredd.

**Gweithredu**

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gyfrifol am greu rhaglen radio 10 munud a ddarlledir bob prynhawn Gwener i'r ysgol gyfan. Mae disgyblion gwahanol yn treulio'u hamser cinio yn ysgrifennu sgriptiau, ymchwilio, cyfweld a rhag-recordio'r rhaglen radio. Caiff pob rhaglen radio ei lanlwytho i wefan yr ysgol ac mae ar gael i rieni ei lawrlwytho. Mae disgyblion yn cael hyfforddiant drwy bartneriaeth â gorsaf radio leol. Yn dilyn ymweliad hyfforddi undydd â'r orsaf radio yn nhymor yr hydref, mae'r disgyblion wedyn yn cael datblygu eu rhaglenni eu hunain trwy gydol y flwyddyn. Mae ei stiwdio recordio ei hun gan yr ysgol. Yn ystod tymor yr haf, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn addysgu'u cyfoedion ym Mlwyddyn 5 sut i weithio'r offer.

**Deilliannau**

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r cyfle i bob disgybl berfformio a datblygu'u medrau llythrennedd a llefaredd mewn cyd-destun buddiol. Mae'n rhoi cipolwg iddynt ar senario bywyd go iawn sy'n defnyddio'u medrau creadigol ochr yn ochr â thechnolegau presennol. Mae pob un o'r disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol o fewn cyd-destun y gwaith hwn. Gweithiant ar y cyd ac yn annibynnol ar eu hathrawon yn ystod yr awr ginio. Maent yn ymdrechu i wneud eu cynyrchiadau yn broffesiynol a chyflawni safon uchel iawn.

26 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae mwynhad a diddordeb disgyblion yn y celfyddydau creadigol yn glir, ac mae safonau lles yn dda neu'n well. Mae llawer o ddisgyblion yn amlwg yn mwynhau perfformio i gynulleidfa, p'un a yw hynny'n gynulleidfa o gyfoedion, rhieni neu'r gymuned ehangach. Yn aml, mae hyn yn wir hefyd i ddisgyblion sy'n gweld pynciau academaidd traddodiadol yn anodd. Dywed y disgyblion hyn eu bod yn aml yn teimlo synnwyr o gyflawni a boddhad yn eu gwaith yn y celfyddydau creadigol nad ydynt yn ei deimlo mewn pynciau eraill. Maent yn mwynhau gweithio'n galed i gyflawni safonau da yn y celfyddydau creadigol. Maent yn datblygu boddhad personol drwy eu gallu i ddyfalbarhau, ac mae hyn yn cyfoethogi ansawdd eu bywydau.

27 Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae tystiolaeth gan arweinwyr drwy eu data asesu bugeiliol fod cyfranogiad disgyblion yn y celfyddydau creadigol wedi codi hyder a hunan-barch disgyblion. Mewn llawer o ysgolion, yn enwedig y rheini lle mae arweinwyr yn dangos eu cefnogaeth i'r celfyddydau creadigol yn weithredol, mae gwaith disgyblion mewn pynciau eraill yn elwa o'r creadigrwydd, dychymyg ac ymgysylltiad y mae disgyblion wedi'u datblygu mewn gwersi celfyddydau creadigol. Mae prosiectau celf penodol, er enghraifft trwy ddawns a drama, yn helpu disgyblion gael dealltwriaeth ddyfnach o amrywiaeth a pharch at wahaniaethau unigol. Mae'r medrau bywyd cadarn y mae disgyblion wedi'u datblygu o ran cynllunio a rheoli'u hamser er mwyn cwblhau prosiectau celf hirdymor neu baratoi'n dda ar gyfer perfformiad cerddorol neu ddramatig yn aml yn cefnogi lefelau uchel o hunangyfeiriad a hunanhyder mewn pynciau eraill. Mewn llawer o ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn gyffredinol. Maent yn cydweithredu'n dda gydag eraill ac yn datblygu lefelau uchel o hunan-barch a hunanhyder. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ddigonol i gysylltu'r deilliannau personol a chymdeithasol da hyn ar lefel ysgol gyfan yn uniongyrchol â chyfranogiad cadarn disgyblion yn y celfyddydau creadigol. Serch hynny, mae'n amlwg bod safonau lles yn dda yn aml mewn ysgolion lle mae athrawon ac arweinwyr yn meithrin pob agwedd ar ddatblygiad eu disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys drwy ddarpariaeth sy'n cynnwys ffocws da ar gyfer y celfyddydau creadigol.

28 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae dysgwyr wedi nodi effaith prosiectau celfyddydau creadigol ar wella presenoldeb ar gyfer grwpiau o ddisgyblion wedi'u targedu. Mae'r arweinwyr hyn yn priodoli'r gwelliannau i ymgysylltiad disgyblion â gweithgareddau ysgol, fel y celfyddydau creadigol. Mae llawer o ddisgyblion yn nodi eu bod yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd pan fyddant yn gweithio tuag at berfformiad, cynhyrchiad neu arddangosfa.

**Sut gall cymryd rhan mewn cynyrchiadau dramatig wella presenoldeb disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Fenton yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Hwlffordd, Sir Benfro, ac mae 427 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 39% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 30% o ddisgyblion, ac mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion yn gyson uwchlaw'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi nodi bod y celfyddydau creadigol yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac yn ehangu'u gorwelion, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny o deuluoedd tlotach. Mae'r ysgol wedi sefydlu côr a cherddorfa lwyddiannus. Mae arweinwyr yn chwilio am ffyrdd i ehangu cyfleoedd disgyblion i ddod yn gysylltiedig â'r celfyddydau.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan am y tro cyntaf mewn gŵyl Shakespeare genedlaethol flynyddol i ysgolion. Mae arweinwyr wedi nodi athro a chynorthwywyr addysgu i arwain y prosiect. Maent yn cael hyfforddiant gan sefydliad cenedlaethol. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cymryd rhan yn ymarfer a pherfformio golygfeydd o The Tempest. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cyflwyno ymarferiadau â ffocws da iddynt yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl hynny.

**Deilliannau**

Mae bron pob disgybl yn gweithio'n galed i wneud cynnydd da, a chynnydd rhagorol mewn rhai achosion, yn enwedig gyda'u medrau llefaredd. Mae llawer o'r disgyblion sy'n gysylltiedig â'r ŵyl wedi gwella eu presenoldeb yn sylweddol, ac nid yw presenoldeb yr un ohonynt yn waeth, o gymharu â'r tymor blaenorol. Dywed disgyblion mai'r rheswm am hyn yw eu bod eisiau bod yn bresennol ar gyfer yr ymarferiadau a'u bod yn edrych ymlaen at y perfformiad ar lwyfan.

## Darpariaeth

### Darpariaeth a threfniadaeth y cwricwlwm

29 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion arfer orau yn dyrannu rhwng diwrnod a dau ddiwrnod yr wythnos i weithgareddau'r celfyddydau creadigol. Fel arfer, maent yn lledaenu hwn dros yr wythnos. Mae hyn yn darparu cyfnod amser priodol i gwmpasu'r gofynion ar gyfer y celfyddydau creadigol yn ddigon manwl. Mewn llawer o ysgolion, mae'r dyraniad amser ar gyfer y celfyddydau creadigol yn newid drwy'r flwyddyn ysgol, gan ddibynnu'n aml ar ba un a oes perfformiad ar y gweill. Mewn ychydig o ysgolion, caiff agweddau ar y celfyddydau creadigol eu haddysgu mewn blociau amser cywasgedig, er enghraifft drwy neilltuo bob prynhawn am wythnos yn benodol ar gyfer prosiect celf a dylunio. Mae hyn yn gwneud defnydd effeithlon o'r amser cyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, yn y sampl ar hap yn holiadur yr arolwg, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn neilltuo llai o amser yr wythnos i'r celfyddydau creadigol.

30 Caiff y celfyddydau creadigol eu haddysgu fel pynciau ar wahân, unigol, wedi'u hamserlennu mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a ymatebodd i'r arolwg. Mae pob un o'r ysgolion yn amserlennu cerdd yn benodol, ac erbyn

Blwyddyn 6, mae cerddoriaeth yn cael ei haddysgu gan athro â medrau a gwybodaeth arbenigol yn hanner yr ysgolion. Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio athro arbenigol ar gyfer celf a dylunio a dawns, ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn bennaf. Ar gyfer y celfyddydau creadigol, fel drama ac ysgrifennu creadigol, yn y rhan fwyaf o ysgolion yr athro dosbarth sy'n cyflwyno'r gwersi i'w disgyblion, pa un a yw'r athro yn arbenigwr neu beidio.

31 Mae ysgolion yn gwneud trefniadau amrywiol ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau creadigol. Gall y rhain gynnwys athrawon yn cyfnewid dosbarthiadau ar gyfer pynciau penodol, neu ddefnyddio medrau athrawon rhan-amser yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon dosbarth. Mae ychydig o ysgolion yn cyflogi asiantaethau arbenigol i gyflwyno'r cwricwlwm celfyddydau creadigol cyfan neu ran ohono, yn enwedig ar gyfer cerddoriaeth a dawns. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r trefniadau hyn yn gwneud defnydd da o'r arbenigedd athrawon sydd ar gael i sicrhau bod disgyblion i gyd yn cael eu hawl lawn i'r holl gelfyddydau creadigol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn cael profiad o ddawns yn rheolaidd fel rhan o'r cwricwlwm ar gyfer addysg gorfforol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae athro arbenigol yn cyflwyno dawns, fel clwb ar ôl ysgol yn benodol, dim ond ar gyfer y rheini sy'n dewis cymryd rhan.

32 Mae'r celfyddydau creadigol gwahanol yn cael blaenoriaeth amrywiol yn y cwricwlwm gan ddibynnu ar arbenigedd staff, ac mae hyn yn cyfrif am safonau amrywiol disgyblion yn aml. Er enghraifft, mewn ysgolion lle mae cerddor hyderus a dawnus yn arwain y celfyddydau creadigol, mae disgyblion yn aml yn cyflawni safonau uwch mewn cerddoriaeth nag mewn dawns, drama neu gelf a dylunio, ac maent yn treulio mwy o amser mewn gwersi cerddoriaeth o ansawdd da. Gall fod parch mawr i'r ysgol yn yr ardal am ei darpariaeth gerddorol, ac o ganlyniad, bydd yn cymryd rhan mewn llawer o gyfleoedd arddangos yn lleol. Mewn ysgolion eraill, lle mae arbenigwr celf a dylunio yn arwain y celfyddydau creadigol, mae celf a dylunio yn cael mwy o amlygrwydd yn y cwricwlwm, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cyflawni safonau uwch ac yn cael cyfleoedd ehangach mewn celf. Hyd yn oed yn yr ysgolion cynradd mwyaf yr ymwelwyd â nhw (dros 600 o ddisgyblion gyda chyfanswm o 60 o staff), nid oes bron dim disgyblion yn cyflawni safonau gwell na'r disgwyl ar draws pob un o'r pedwar math o gelfyddyd.

33 At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol mewn ysgolion yn dibynnu gormod ar ba un oes athro ar y staff sy'n meddu ar fedrau a gwybodaeth arbenigol a brwdfrydedd dros gelfyddyd greadigol. Er bod hyn yn aml yn sicrhau safonau uchel mewn un maes o'r celfyddydau creadigol, nid yw'n sicrhau safonau uchel ym mhob un yn aml. Mae'r cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol yn dibynnu gormod ar siawns ac nid ar gynllunio cwricwlwm cadarn sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael profiad eang o'r celfyddydau creadigol.

34 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ac a fu'n rhan o'r arolwg yn defnyddio cwricwlwm thematig i ryw raddau. Dyma ble fydd pynciau'n cael eu grwpio ynghyd mewn testunau fel bod disgyblion yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng eu dysgu. Er y gall pynciau gwahanol fod wedi'u hamserlennu ar wahân, mae thema yn rhedeg drwy ddysgu disgyblion dros gyfnod o amser, fel Yr Ail Ryfel Byd neu Cymru Wych. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cynlluniedig buddiol i ddisgyblion

gyfoethogi eu dealltwriaeth o'r thema trwy ddawns, drama, cerddoriaeth a chelf. Fodd bynnag, ar brydiau, mae ehangder y profiad hwn ar draul datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ym mhynciau'r celfyddydau creadigol. O ganlyniad, er bod disgyblion yn cael ystod addas o ffurfiau celf i wella eu dealltwriaeth o'r thema, nid yw'r gwaith y maent yn ei gwblhau yn eu gwers celfyddydau creadigol yn ddigon heriol yn aml, yn enwedig i ddisgyblion mwy abl.

**Defnyddio'r haka fel rhan o destun sy'n helpu disgyblion i wneud cysylltiadau yn eu dysgu**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Pillgwenlli yn ysgol fawr yng nghanol dinas gyda 681 o ddisgyblion sy'n gwasanaethu poblogaeth aml-ethnig yng Nghasnewydd. Mae rhyw 41% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan tua 40% o ddisgyblion. Mae'r cyfrannau hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae arweinwyr yr ysgol yn hyrwyddo'r celfyddydau fel modd o ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae cynllunio trylwyr athrawon ar gyfer y celfyddydau yn sicrhau bod pob disgybl yn cael profiad eang a chynyddol. Mae arweinwyr hefyd yn ystyried grwpiau gwahanol o ddisgyblion y gall eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys disgyblion â Saesneg cyfyngedig, neu yn achos rhai sydd newydd gyrraedd y wlad, dim Saesneg, ac maent yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau ymarferol ar unwaith a gallant gyfranogi yn gyfartal â'u cyfoedion. Hefyd, mae arweinwyr o'r farn fod y celfyddydau yn helpu disgyblion mwy encilgar gydag anawsterau cymdeithasol neu emosiynol i fagu hyder, o ganlyniad i gyfranogi a gweithio ar y cyd mewn grwpiau.

**Gweithredu**

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn astudio'r testun 'Ynysoedd', sy'n cynnwys darllen am chwedlau a dyfeisio eu harwyr eu hunain. Mae'r dosbarth yn gwylio recordiad o ddawns ryfel yr haka a chaiff ei pherfformio gan dîm rygbi Seland Newydd, ac yn trafod pwysigrwydd diwylliannol y ddefod hon. Maent yn dadansoddi nodweddion gwahanol o'r perfformiad, yn cynnwys rôl bwysig gosod y corff, symudiad, sain ac edrychiadau'r wyneb er mwyn cynllunio'u dilyniannau dawns ryfel eu hunain.

Ar ôl sesiwn gynhesu fywiog, mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau o bedwar neu bump i gynllunio ac ymarfer eu dawnsiau rhyfel eu hunain. O fewn y sesiwn, mae disgyblion yn cael y cyfle i berfformio eu gwaith ac i gael adborth gan eu cyfoedion yn ogystal â chan yr athro. Cânt gyfle wedyn i roi cynnig ar syniadau newydd ac ymgorffori'r gwelliannau a awgrymwyd yn eu cynigion dilynol.

**Deilliannau**

Mae pob disgybl yn cyfranogi'n frwdfrydig yn y wers hon. Maent yn cymhwyso'u hunain gyda hyder, disgyblaeth, egni a brwdfrydedd. Mae ganddynt syniad da o'r hyn

maent yn ceisio ei greu ac yn trafod ystod o nodweddion a meini prawf llwyddo a fyddai'n gwneud eu dawnsiau'n effeithol. Trwy gydol y wers, mae'r athro yn cymryd cyfleoedd i ysgogi geiriau ac ymadroddion priodol o'r disgyblion i ddisgrifio symudiadau ac ystumiau. O ganlyniad, mae'r wers yn gwneud cyfraniad rhagorol at ddatblygu iaith lafar disgyblion, yn cynnwys y gyfran sylweddol o ddisgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae disgyblion yn dangos gallu da i weithio fel timau ac yn trafod, yn cyfnewid syniadau, yn cyd-drafod ac yn cynllunio ar y cyd. Maent yn dangos hyder cynyddol a dyfeisgarwch wrth ymarfer ac yn gwneud cynnydd da erbyn y perfformiadau terfynol ar ddiwedd y wers.

35 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dangos ei bod yn bosibl addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda o fewn y cwricwlwm cynradd. Gallant addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, yn ogystal â darparu profiadau cyfoethog yn y celfyddydau creadigol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ddychmygus ac yn creu cyfleoedd arloesol, heriol i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso'u repertoire datblygol o fedrau, ar draws ffiniau pynciau. Fodd bynnag, yn hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae'r amser a neilltuir i'r celfyddydau creadigol wedi'i leihau yn ddiweddar, er na fu unrhyw newid yn hanner yr ysgolion. Mae lleiafrif o ysgolion yn honni bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cyfyngu ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau creadigol. Maent o'r farn fod ffocws rhy gadarn ar yr agweddau ysgrifenedig ar lythrennedd a rhifedd, ac o ganlyniad, maent yn ei chael yn anodd cyfiawnhau amser ar gyfer y celfyddydau creadigol. Nid yw'r ysgolion hyn yn llwyr werthfawrogi rôl ehangach y celfyddydau creadigol o ran datblygu lles a hyder disgyblion, sydd yn ei dro yn cefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion.

**Giant Winter**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Iau Aberdaugleddau yn Sir Benfro yn ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion saith i 11 oed. Mae 347 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 29% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan tua 31%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae cerddoriaeth yn allweddol i'r cwricwlwm ac yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Mae'n sail i wersi eraill ac nid yn nodwedd 'ategol' o'r ddarpariaeth. Defnyddir cerddoriaeth ar draws holl destunau'r cwricwlwm. Mae'n galluogi disgyblion i wneud cysylltiadau yn eu dysgu. Mae'r ysgol o'r farn y gellir goresgyn rhwystrau a all fod gan ddisgyblion mewn llythrennedd drwy gerddoriaeth. Er enghraifft, mae disgyblion yn deall ac yn dangos iaith barddoniaeth drwy eu cyfansoddiadau cerddorol.

**Gweithredu**

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn astudio'r gerdd 'Giant Winter' gan John Foster fel rhan o'u gwersi llythrennedd. Mewn cerddoriaeth, maent yn gwrando ar ystod o

gerddoriaeth am y gaeaf. Mae'r athro yn canolbwyntio'u gwrando yn dda drwy roi capsiynau a theitlau i'r disgyblion y byddant yn cydweddu i'r cyfansoddiadau a glywant. Mae disgyblion yn cyfiawnhau eu hatebion mewn trafodaeth trwy gyfeirio at eu gwrando.

Mae disgyblion yn creu eu cyfansoddiadau cerddorol eu hunain wedyn i ddilyn strwythur y gerdd y maent wedi'i hastudio. Mae disgyblion yn cynrychioli'r ddelweddaeth farddonol gan ddefnyddio offerynnau, er enghraifft curiadau drwm i ddarlunio'r frwydr rhwng y gaeaf a'r gwanwyn, glissandi ar glockenspiele a seiloffonau i ddarlunio 'shivering trees' a 'ripples cold muscles of iron', llinynnau yn sgrechian ar gyfer 'gripping talons of ice' a chloc clychau gwartheg i bortreadu 'he watches and waits til it's time to renew the battle again'. Mae disgyblion yn defnyddio iaith dechnegol briodol i ddisgrifio'r elfennau cerddorol y maent yn eu defnyddio, er enghraifft crescendo a distewi i ddisgrifio'u dynameg amrywiol, accelerando a rallentando i nodi'r tempo newidiol, a legato neu stacato i gyfleu cymalau cerddorol.

Yn olaf, mae'r holl ddisgyblion yn gwrando â pharch wrth i'w cyfoedion berfformio'u cyfansoddiadau. Maent yn gwrando'n astud am eu bod yn gwybod y gerdd y mae'r gerddoriaeth yn ei chynrychioli yn dda. Maent yn cynnig beirniadaeth adeiladol i'w gilydd ynghyd â chanmoliaeth haeddiannol, ac yn 'benthyg' syniadau da y maent yn eu clywed i wella eu gwaith eu hunain.

**Deilliannau**

Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at gerddoriaeth yn eu galluogi i ddarlunio a chael mynediad i ddelweddaeth farddonol anodd ac felly'n gwella eu dealltwriaeth o'r gerdd. Mae'r athro yn nodi unigolion sy'n cael anhawster llwyddo mewn llythrennedd ond sy'n disgleirio mewn cerddoriaeth, ac yn helpu'r disgyblion hyn i wneud y cyswllt yn eu dysgu mewn gwersi llythrennedd dilynol. Mae'r ysgol yn nodi bod cerddoriaeth yn cefnogi medrau gwrando, meddwl a phenderfynu disgyblion, ac yn datblygu eu gallu i weithio fel aelod o dîm.

Yn ogystal, mae arweinwyr yn targedu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac yn eu cynorthwyo i gael hyfforddiant offerynnol, er enghraifft darparu offeryn gan ddefnyddio grant amddifadedd disgyblion yr ysgol, a darparu cyfleoedd cynnar iddynt berfformio drwy fand yr ysgol.

36 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwneud defnydd da iawn o TGCh i wella dysgu disgyblion yn y celfyddydau creadigol. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau TGCh yn effeithiol, gan ddefnyddio ystod dda o raglenni a chymwysiadau. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio dyfeisiau llechen cludadwy yn effeithlon i gofnodi'u gwaith yn y celfyddydau creadigol. Mae oedolion yn cefnogi disgyblion yn dda i adolygu, arfarnu a gwella eu perfformiadau, mewn dawns a drama er enghraifft. Mewn gwersi cerddoriaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cyfansoddi gan ddefnyddio cymwysiadau poblogaidd. Pan gânt eu defnyddio'n dda, mae'r cymwysiadau hyn yn darparu llwyfan i lawer o ddisgyblion gynhyrchu amrywiaeth eang o gyfansoddiadau sy'n swnio'n broffesiynol, sydd yn cynnal ac yn datblygu syniadau cerddorol yn effeithiol. Mewn llawer o wersi celf a dylunio, mae disgyblion yn ymchwilio i weithiau artistiaid yn gyflym ac effeithiol

gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen. Pan fydd athrawon yn cyfarwyddo’r gwaith hwn yn dda, mae’n hynod bwerus o ran galluogi disgyblion i gymhathu llawer o enghreifftiau o arddull benodol mewn amser byr. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio cymwysiadau golygu fideos yn effeithiol i rannu’u gwaith gyda’u cyfoedion a rhieni.

**Gwneud ffilm i ddarparu cyd-destun i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Tredelerch / Rumney Primary School yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd, ac mae 483 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 16% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol gan 26% o ddisgyblion, sef tua’r un peth â’r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Tredelerch yn falch o draddodiad hir yr ysgol yn y celfyddydau creadigol. Maent yn mynd ati i chwilio am ffyrdd i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau creadigol, er enghraifft defnyddio ffilm a dysgu digidol, ochr yn ochr â’r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

**Gweithredu**

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn creu eu ffilmiau cyffrous eu hunain. Gan weithio mewn grwpiau, maent yn ysgrifennu, golygu, dysgu ac yn ymarfer sgript y ddrama. Y nhw sy’n castio ac yn cyfarwyddo’r ffilm. Maent yn golygu eu perfformiadau gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen llaw a chymwysiadau cyfryngau. Maent yn ysgrifennu’r gerddoriaeth i gyd-fynd â rhannau o’r ffilm ac yn creu posteri hysbysebu, sloganau ac is-benawdau. Maent yn arfarnu gwaith ei gilydd ac yn cyflwyno’r ffilmiau gorffenedig i gynulleidfa o rieni a ffrindiau yn ystod prynhawn agored. Mae’r athro yn creu heriau unigol ychwanegol i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau llythrennedd yn gynyddol.

**Deilliannau**

Mae disgyblion yn cael eu cyffroi a’u difyrru gan y prosiect. Mae ganddynt ddiben a chymhelliant cyffredin i gyflawni safonau uchel mewn llawer o feysydd pwnc. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da o’u medrau TGCh, cerddoriaeth a chelf i greu cynnyrch terfynol integredig, aml-gyfrwng i ddathlu. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda’u llefaredd. Dywed bron yr holl ddisgyblion eu bod yn mwynhau ysgrifennu ar y cyd, ac mae safonau’r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgrifennu ar y lefel ddisgwyliedig neu’n uwch. Mae’r ychydig iawn o ddisgyblion sydd â safonau islaw’r rheini a ddisgwylir yn cael cymorth da gan gynorthwyydd addysgu medrus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn datblygu dyfalbarhad wrth ysgrifennu darn hwy o waith.

37 Mae mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dod o hyd i gyfleoedd llawn dychymyg i ennyn diddordeb disgyblion yn y celfyddydau creadigol tra'n darparu cyd-destun cymhellgar a phwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau menter, busnes a rhifedd. Yn aml, mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys creu a gwneud nwyddau i'w gwerthu, er enghraifft mewn ffair Nadolig, digwyddiad elusen neu mewn partneriaeth â busnes lleol. Yn ychwanegol at ddylunio a gwneud y nwyddau, mae disgyblion yn cyfrifo cost y deunyddiau, ac yn ystyried elw a cholled wrth gyd-drafod pris terfynol ar gyfer y cynnyrch.

**Annog disgyblion i fod yn entrepreneuriaid creadigol**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Ynystawe ger Abertawe yn ysgol cyfrwng Saesneg ac mae 202 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 8% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfran o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae llawer o waith yr ysgol yn deillio o fod yn rhan o brosiect o'r enw 'The Leonardo Effect'. Mae hwn yn deillio o waith a wnaed gyda Choleg y Santes Fair yn Iwerddon. Nod y prosiect yw cysylltu dysgu am gelf a gwyddoniaeth[5]. Mae athrawon yn gwneud defnydd rhagorol o'r ardal leol fel adnodd i ddatblygu'r celfyddydau creadigol, er enghraifft edrych ar hanes lleol mwyngloddio copr. Mae'r ysgol wedi creu ei hamgueddfa ei hun y bydd yn ei defnyddio'n dda i gefnogi addysgu thematig. Mae arweinwyr yn rhannu'u profiad a'u dulliau arloesol yn rheolaidd i reoli'r cwricwlwm, yn enwedig mewn perthynas â'r celfyddydau creadigol, o fewn y clwstwr, yr awdurdod lleol ac ymhellach.

**Gweithredu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi mewn clybiau ar ôl ysgol neu glybiau yn yr ysgol, ac maent yn cyfuno amrywiaeth o agweddau ar greadigrwydd ac arloesedd. Caiff y rhain eu cynnal yn wirfoddol gan athrawon, a'u cefnogi gan oedolion ychwanegol o gymuned yr ysgol. Er enghraifft, aeth aelodau grŵp menter yr ysgol ati'n ddiweddar i ddylunio a gwneud platiau clai, sydd wedi'u gwerthu yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, siopau crefftau lleol ac yn yr ysgol. Cafodd gwaith disgyblion ei arddangos yn ddiweddar yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain ac yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

**Deilliannau**

Mae datblygu prosiectau menter wedi galluogi disgyblion i adeiladu eu medrau cydweithio a threfnu i lefel uchel, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar greu

[5] Mae rhagor o wybodaeth am waith yr ysgol ar 'The Leonardo Effect' ar gael ar ei gwefan: https://swansea-edunet.gov.uk/en/schools/ynystawe/Pages/The_Leonardo_Effect.aspx

lefelau da o hunan-barch a hyder. Mae cyfranogiad disgyblion mewn llawer o weithgareddau creadigol ysgol gyfan yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a gyflawnir yn y celfyddydau creadigol, ac mae wedi creu ethos ysgol gyfan o weithio gyda'i gilydd tuag at nod gyffredin. Mae ymagwedd arweinwyr at y cwricwlwm wedi cael effaith sylweddol ar gyflawniad gwell yn y celfyddydau creadigol, yn enwedig mewn celf.

38 Mae llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio'r celfyddydau creadigol yn effeithiol iawn i gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft trwy gynnwys disgyblion o ddosbarthiadau adnoddau dysgu. Maent yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn cael cyfleoedd priodol i gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol gyda'u cyfoedion mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion nad ydynt yn gallu canu'n gonfensiynol yn ymuno â chôr drwy arwyddo[6], ac mae'r dull hwn o gyfathrebu yn cael ei gopïo gan ddisgyblion eraill. Mae ychydig o ysgolion hefyd yn gwneud defnydd da o arwyddo i gefnogi gweithgareddau canu ysgol gyfan. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn dod o hyd i ffyrdd dychmygus a dyfeisgar i gynnwys disgyblion ag anableddau mewn gwersi dawns. Mae'r lefel hon o gynhwysiant yn creu diwylliant o oddefgarwch, dealltwriaeth o wahaniaethau unigolion a synnwyr o hunaniaeth gorfforaethol yn yr ysgol. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr yn aml i bob disgybl gael profiad o ddimensiwn ysbrydol y celfyddydau creadigol, drwy wneud cyfraniad unigol bach at gyfan llwyddiannus llawer mwy a diriaethol.

**Canwch a byddwch lawen / Sing and be happy**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Tywyn/Tywyn Primary School yn Sandfields yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ysgol cyfrwng Saesneg gyda 460 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 31% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol gan 49% o ddisgyblion, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae arweinwyr yn yr ysgol yn credu yng ngrym canu cymunedol. Mae pob un o'r plant yn cymryd rhan yn y sesiynau canu ysgol gyfan bob wythnos. Mae arweinwyr yn ofalus iawn i gynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion sy'n mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol yn arwyddo yn hytrach na chanu. Cred arweinwyr fod canu yn adnodd gwerthfawr, rhad sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar les pob disgybl.

**Gweithredu**

Caiff y sesiynau wythnosol eu harwain gan y dirprwy bennaeth, sy'n gerddor hyderus. Disgyblion hŷn sy'n gweithio'r dechnoleg i ddarparu geiriau, microffonau a thraciau cefndir, ac yn arwain rhan-ganu a chylchoedd. Mae disgyblion yn canu ac yn mwynhau repertoire eang o ganeuon, yn cynnwys caneuon gwerin Cymreig, caneuon

[6] Defnyddio iaith arwyddion i gyfleu geiriau cân, gan gydfynd â'r gerddoriaeth

dwli, baledi cyfoes a cherddoriaeth boblogaidd, cylchoedd, a chaneuon traddodiadol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod tesitwra[7] y repertoire yn cydweddu'n dda â lleisiau plant, ac nad yw'r caneuon yn rhy eiriol i ddisgyblion iau eu darllen neu'u cofio. Lle bo'n briodol, mae pob disgybl yn dysgu i arwyddo a chanu'r geiriau.

**Deilliannau**

Mae arolygon disgyblion yn nodi bod canu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at hapusrwydd disgyblion a'u mwynhad o'r ysgol. Mae arweinwyr yn nodi bod y sesiynau ysgol gyfan yn gwella ymddygiad disgyblion, eu canolbwyntio, eu medrau gwrando a'u cydweithrediad, a bod yr effaith gadarnhaol hon yn parhau yn yr ystafelloedd dosbarth ar ôl y sesiynau canu. Bydd pob disgybl yn cymryd rhan. O ganlyniad, mae canu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at hyrwyddo ethos cynhwysol ysgol gyfan. Mae'r holl ddisgyblion yn clywed ac yn ymateb i eirfa gerddorol dechnegol, i ddisgrifio amseriadau a dynameg er enghraifft. Mae disgyblion hŷn yn datblygu'u medrau arwain wrth arwain y canu a rhannau arweiniol. Mae disgyblion yn unigol yn canu unawdau o flaen yr ysgol ac mae hyn yn datblygu'u hunan-barch a'u hyder yn dda iawn.

39 Mae ychydig o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwneud defnydd da o sesiynau therapi cerddoriaeth gyda disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol, neu'r rheiny sydd mewn perygl o ddadrithio â'r ysgol. Fel arfer, mae'r sesiynau grŵp bach hyn yn targedu disgyblion a all fod wedi ymddieithrio neu sydd ag anawsterau canolbwyntio neu gyfathrebu. Cânt eu harwain gan gerddorion wedi'u hyfforddi'n arbennig fel arfer, ac yn aml mae ganddynt brofiad addysgu o weithio gyda disgyblion ag anghenion ychwanegol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan ysgolion yr ymwelwyd â nhw dystiolaeth glir, fesuradwy o effaith gadarnhaol sesiynau therapi cerdd, er enghraifft ar wella ymgysylltiad a phresenoldeb, er nad yw arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion wedi casglu na dadansoddi data i ddangos effaith lawn eu gwaith. Dywed disgyblion eu bod yn mwynhau'r sesiynau yn fawr iawn a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gwersi eraill o ganlyniad iddynt.

**Mae therapi cerdd yn cynorthwyo lles ymddygiadol ac emosiynol**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Christchurch yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Abertawe, ac mae 136 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 14% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 30% o ddisgyblion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae disgyblion â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol yn cael cyfle i gymryd rhan mewn therapi cerdd. Caiff plant eu hannog i archwilio'u teimladau trwy gerddoriaeth a dysgu strategaethau ar gyfer rheoli eu hymddygiad eu hunain.

[7] Ystod gyffredinol y rhan fwyaf o nodau rhan lleisiol, yn hytrach na'r amrediad neu'r ystod gerddorol a all gynnwys nodau uwch neu is yn achlysurol.

**Gweithredu**

Mae therapydd/ athro cerdd rhan-amser yn gweithio'n rheolaidd gyda grŵp o ddisgyblion agored i niwed sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, neu ddisgyblion sydd wedi dod i'r wlad yn ddiweddar ac sydd â lefelau isel o ran dysgu'r iaith. Nod y therapi yw galluogi disgyblion i ddelio â'u hanawsterau a rhoi mwy o hyder iddynt a gwell hunan-barch, sydd yn ei dro yn effeithio ar gyrhaeddiad a lefelau ymgysylltu. Roedd y disgyblion a arsylwyd yn defnyddio clychau llaw i weithio tuag at berfformiad grŵp ar gyfer cyngerdd Nadolig.

**Deilliannau**

Mae pob un o'r disgyblion yn amlwg yn mwynhau'r grŵp ac yn ymgysylltu'n dda â'r athro. Roedd bron pob disgybl yn gallu dilyn y nodiant graffig heb gymorth, cadw amser a chwarae'r rhythm cywir. Roeddent yn gwybod i beidio â chwarae yn ystod y curiadau gwag. Roedd pob un o'r disgyblion yn berfformwyr hyderus. Roedd tua hanner yn gallu cywiro'u hunain os oeddent yn gwneud camgymeriad. Roedd un disgybl yn gallu cyfarwyddo'r lleill heb gymorth a darllen ymlaen yn y sgôr.

Roedd safonau disgyblion mewn lles uwchlaw'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae hyn yn fwy nodedig fyth am fod problemau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol gan y disgyblion targedig. Dywedodd un disgybl fod canu'r clychau 'yn fy nhawelu pan fyddaf yn meddwl fy mod yn mynd yn ddig ynghylch chwarae pêl-droed amser chwarae'.

Mae data gwaelodlin gan yr ysgol ac mae'n mesur effaith yr ymyrraeth dros gyfnod ar wella deilliannau bugeiliol, a hefyd ar wella llwyddiant academaidd. Mae hyn yn dangos bod mwyafrif y disgyblion sy'n cymryd rhan yn rheolaidd yn rhagori ar ddisgwyliadau ac yn gwneud rhwng dwy a thair lefel o gynnydd yn y pynciau craidd dros gyfnod allweddol 2.[8]

## Ansawdd yr addysgu

40 Mae safonau disgyblion yn y celfyddydau creadigol ar eu huchaf pan gaiff gwersi eu haddysgu gan athrawon da sydd hefyd yn arbenigwyr yn un o'r celfyddydau creadigol. Yn y gwersi gorau a arsylwyd, mae athrawon hyderus a gwybodus yn dangos ac yn disgwyl safonau uchel yn eu harbenigedd celfyddydau. Maent yn gwybod beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud nesaf er mwyn gwella, ac maent yn rhoi adborth adeiladol, buddiol i ddisgyblion. Mae'r athrawon hyn yn gwneud defnydd da o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda sy'n adeiladu ar ei gilydd yn gynyddol ac yn ddi-dor. Maent yn ymyrryd yn fedrus lle bydd cynnydd disgyblion yn arafu, ond nid ydynt yn ofni caniatáu digon o amser i ddisgyblion ddatblygu a chyfnerthu'r medrau y maent newydd eu caffael cyn symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf. Yn y

[8] Mae mwy o fanylion am yr arfero orau a nodwyd yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Christchurch ar gael yn http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/329374.5/Therapi%20cerdd%20yn%20helpu%20datblygiad%20emosiynol%20ac%20ymddygiadol/?navmap=33,53,158

gwersi hyn, caiff disgyblion eu galluogi i wneud penderfyniadau priodol ac i gymryd risgiau heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y celfyddydau creadigol lle nad oes unrhyw un ymateb cywir i her.

41 Mewn gwersi celfyddydau creadigol da a rhagorol, mae athrawon yn cymryd eu hamser i esbonio ac i fodelu'r meini prawf llwyddo i ddisgyblion. Er enghraifft, gwnânt yn siŵr bod dealltwriaeth glir gan bob disgybl o'r hyn sy'n gwneud cyfansoddiad da neu ddilyniant dawns llwyddiannus. Maent yn defnyddio adnoddau yn arbennig o dda i roi llawer o enghreifftiau o fath neu genre arbennig i ysbrydoli disgyblion. Maent yn addysgu medrau a thechnegau sy'n benodol i'r ffurf o gelfyddyd ac yn darparu cyfleoedd i ymarfer, ac yna cyfleoedd strwythuredig sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion arbrofi a datblygu eu dehongliad dychmygus eu hunain o'u dysgu. Yn olaf, maent yn cynorthwyo disgyblion i adolygu ac arfarnu eu dysgu, ac i fyfyrio ar y camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd.

**Cymysgu realiti a ffantasi i greu byd hudol**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol-Y-Wern yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae 500 ar y gofrestr. Mae rhyw 5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 16%. Mae'r cyfrannau hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol yn sicrhau bod gweithgareddau trawsgwricwlaidd sydd wedi'u cynllunio'n dda yn darparu cyfleoedd rhagorol i bob disgybl gael profiad o ystod eang o dechnegau a genres celf. Mae staff yn gweithio'n agos ag artistiaid sefydledig a phroffesiynol i ddatblygu'u dealltwriaeth eu hunain o gelf. Mae gweithdai celf a dylunio rheolaidd i ddisgyblion yn darparu hyfforddiant buddiol i staff ar ddefnyddio deunyddiau uwch fel pren, metel, a gwydr. Mae hyn yn galluogi pob aelod o staff i gyflwyno cwricwlwm wedi'i gydlynu'n ofalus fel bod prosiectau grŵp blwyddyn gyfan yn datblygu medrau celf trwy bynciau eraill, yn enwedig hanes a daearyddiaeth. Caiff rhieni wahoddiad i ymuno â phob ymweliad ysgol. Mae hyn yn llwyddo i alluogi rhieni i werthfawrogi a deall gwerth addysgol yr ymweliadau ac yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn effeithiol.

**Gweithredu**

Mae disgyblion Blwyddyn 6 sy'n astudio 'Meistri a Gweision' yn ymweld â Chastell Coch i ddysgu am Dafydd Bute a'i feistr William Burgess.

Yn dilyn eu hymweliad, mae disgyblion yn edrych ar baentiadau amrywiol o Gastell Coch, gan ganolbwyntio ar ddau arlunydd o Gymru, sef Rhiannon Roberts, a Jodie Welsh. Maent yn trafod y dulliau gwahanol a ddefnyddir gan yr arlunwyr hyn ac yn canolbwyntio ar dôn ac ansawdd lliw yn y gweithiau. Mae disgyblion yn ystyried pa un a oedd y lliwiau yn gynnes neu'n oer, yn llachar neu'n llwydaidd, yn olau neu'n bŵl ac yn bur. Mae'r cyfle yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod sut mae'r arlunwyr yn cyflawni'r tonau lliw a ddefnyddiwyd, drwy eu hannog i sylwi ar ba mor olau neu dywyll yw'r lliwiau. Er enghraifft, mae'r athro yn defnyddio olwyn lliwiau yn

effeithiol i esbonio er mwyn goleuo coch, efallai nad gwyn yw'r dewis gorau, gan y bydd arlliw pinc i'r lliw a fydd yn deillio o hynny. Yn lle hynny, anogir disgyblion i gymysgu coch gyda melyn golau er mwyn creu 'arlliw' gwahanol yn hytrach na chynhyrchu lliw gwahanol yn llwyr. Mae disgyblion yn ystyried sut mae'r arlunwyr yn gosod tonau golau neu dywyll nesaf at ei gilydd i greu paentiadau mwy cymhleth, cynnil a soffistigedig.

Gyda'i gilydd, mae disgyblion yn dewis cymeriad o un o chwedlau Aesop. Maent yn defnyddio'r technegau a ddysgwyd mewn gweithdai blaenorol i baentio'r llew o'r stori 'Y Llew a'r Llygoden'. Mae'r athro yn eu hannog i ystyried graddau goleuni neu dywyllwch yn eu gwaith, ac yn arwain y disgyblion yn llwyddiannus i roi arlliw 'tywyllach' neu 'oleuach' i wneud i'w paentiadau gorffenedig ymddangos yn fwy solet neu'n fwy llachar.

Mae prosiect buddiol nodedig arall yn cynnwys ymchwilio i daith yr afon Taf. Mae gweithdai wedi'u cynllunio'n ofalus gydag artist lleol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion a staff o dechnegau celf gwahanol. Mae medrau mapio yn ogystal â chyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig yn integreiddio gyda gweithgareddau celf i greu arddangosfa gelf gyffrous a pharhaol. Mae hyn yn cynnwys celf yn ogystal â gweithiau llythrennedd estynedig yn seiliedig ar ffeithiau hanesyddol a daearyddol. Mae'r ymchwil hanesyddol helaeth yn arwain at furlun creadigol o daith yr afon, yn cynnwys elfennau gwahanol technegau celf a ddatblygwyd yn y dosbarthiadau.

**Deilliannau**

Yn y ddau brosiect, mae bron yr holl ddisgyblion yn ehangu dyfnder eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o agweddau ar hanes Cymru. Maent yn archwilio tywydd, dŵr, ffurfiau tir, a natur, a'r cyfan drwy waith celf. Mae gweithdai â ffocws gydag arlunwyr llwyddiannus yn datblygu gallu disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r technegau mwyaf addas sydd ar gael iddynt mewn celf i gyflwyno'u gwaith. Maent yn cydweithredu'n helaeth gyda chyfoedion, athrawon, ac arlunwyr i ddatblygu'u medrau llefaredd. Mae'r athro yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion herio a chwestiynu barnau ei gilydd, ac i dalu sylw manwl i beth mae rhai eraill yn ei ddweud cyn ymateb yn briodol.

Mae'r ysgol yn ystyried bod y celfyddydau creadigol yn gyfrwng pwerus i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched. Ategir hyn gan ddata craidd gan fod safonau llefaredd bechgyn wedi gwella mewn Cymraeg a Saesneg dros y tair blynedd diwethaf. Priodolir y gwelliant hwn i'r trafodaethau difyr y mae disgyblion yn eu cael yn ystod gweithgareddau celf. Drwy ymgysylltu â gweithgareddau celf, mae safonau ymddygiad yn uchel wrth i ddisgyblion ddatblygu yn unigolion llawn cymhelliant a hyderus sydd yn ymgysylltu'n llwyr.

Mae ffocws clir gan yr ysgol ar sicrhau bod yr holl arddangosiadau o amgylch yr ysgol yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu ystod eang o dechnegau celf ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys yr holl furluniau a phaentiadau wal mawr yn yr ysgol gyfan. Er enghraifft, mae neuadd yr ysgol, o'r enw 'Neuadd Tir Na Nog' yn deyrnged i waith yr awdur o Gymru, T. Llew Jones. Caiff ei waith ei ddathlu drwy eiriau ei waith wedi'u cydblethu â phaentiadau disgyblion.

Mae'r pennaeth yn credu'n gadarn y dylai pob disgybl sy'n gadael yr ysgol adael darn

o gelf ar ei ôl fel ei fod ef neu hi yn dod yn rhan o ddyluniad yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddychwelyd i'r ysgol i weld eu gwaith.

42 Lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae gan athrawon ffocws clir, wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer dysgu disgyblion. Gwnânt ddefnydd mynych o arddangosiadau a modelu yn y ffurf celf, ond pur anaml y byddant yn siarad. Pan fyddant yn rhoi canmoliaeth, mae'n gwbl haeddiannol yn aml. Mewn gwersi cerddoriaeth a dawns da, mae disgyblion yn aml yn treulio mwy o amser yn gwrando ar gerddoriaeth nag y mae athrawon yn ei dreulio yn siarad. Mewn gwersi celf a drama, mae disgyblion yn arsylwi ac yn arfarnu gwaith eu cyfoedion a'u hathrawon yn rheolaidd, ac ond yn treulio cyfnodau byr o amser â ffocws da yn gwrando ar esboniadau llafar. Mae disgwyliadau uchel gan yr athro o bob disgybl i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. O ganlyniad, nid oes gan ddisgyblion unrhyw amheuaeth bod disgwyl iddynt, fel artistiaid, weithio'n galed, gwneud cynnydd a chyflawni o'u gorau.

43 Yn ddieithriad mewn gwersi celfyddydau llwyddiannus, mae athrawon yn cyfleu angerdd ac argyhoeddiad ar gyfer y celfyddydau creadigol i'w disgyblion. Mewn ysgolion lle caiff cerddoriaeth, celf a dylunio, dawns a drama eu haddysgu yn dda, mae'r celfyddydau yn rhan annatod ac anghyfnewidiadwy o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae ystafelloedd dosbarth yn fannau dysgu cyffrous, golau a bywiog. Mae athrawon yn sicrhau bod eu gwersi'n greadigol ac ymarferol, ac nid ydynt yn caniatáu i'r celfyddydau gael eu hymylu o fewn gofynion gweithgareddau eraill yr ysgol. O ganlyniad, mae profiadau dysgu disgyblion mewn llawer o bynciau yn gyfoethog a phwerus.

44 Ar yr ychydig o achlysuron lle mae gwersi'n llai llwyddiannus, mae hyn yn aml oherwydd bod athrawon yn cyfeirio dysgu'r disgyblion yn ormodol. Yn yr achosion hyn, nid yw'r hyder gan athrawon i adael i'r disgyblion arbrofi, bod yn greadigol a gwneud camgymeriadau. Maent yn ymyrryd yn rhy gyflym, gan gredu y gallant helpu disgyblion i gael pethau'n iawn. Yn y gwersi hyn, mae syniad rhagdybiedig gan athrawon yn gyffredinol o gynnyrch gorffenedig unigol. Maent yn arfarnu'n anghywir llwyddiant dysgu ar efelychiad disgyblion o fodel yr athro. Ceir llawer o enghreifftiau yn y celfyddydau creadigol lle mae angen i ddisgyblion gopïo beth mae athro yn ei wneud, er enghraifft wrth ddysgu sut i ddefnyddio siarcol neu ddyfrlliwiau mewn celf, neu ddysgu sut i wella canu drwy ddefnyddio'r technegau anadlu cywir. Fodd bynnag, mae'r athrawon mwyaf llwyddiannus yn cydblethu addysgu'r medrau hyn yn uniongyrchol gyda chyfleoedd i ddisgyblion eu defnyddio'n ddychmygus yn eu ffordd eu hunain.

45 Mewn mwyafrif o wersi cerdd, drama a dawns, mae'r holl ddisgyblion yn cwblhau'r un tasgau. Ar ychydig o achlysuron, mae disgyblion mwy abl yn cwblhau tasgau diymdrech yn hawdd, ac mae disgyblion llai abl yn ei chael yn anodd cyflawni llwyddiant. Fodd bynnag, lle mae'r gwersi hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae'r athro yn herio disgyblion mwy abl yn fedrus i gyflawni safonau uwch drwy ofyn cwestiynau mwy treiddgar a mynnu ymateb dyfnach, wedi'i ystyried yn fwy gofalus. Yn yr un modd, mae'r athro yn addasu'r gweithgaredd yn briodol i alluogi disgyblion llai abl i gyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

46 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae athrawon yn gwahaniaethu eu cynllunio ar gyfer celf a dylunio yn ôl eu hasesiadau o fedrau a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Lle mae'r athro yn rhoi ystyriaeth dda i'r medrau y mae disgyblion eisoes wedi'u meistroli, ac yn cynllunio tasgau heriol yn unol â hynny, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mewn lleiafrif o wersi, fodd bynnag, er bod athrawon yn trefnu disgyblion mewn grwpiau gallu, maent yn disgwyl i bob grŵp ddefnyddio carwsél o'r un gweithgareddau dros gyfnod o amser. Yn rhy aml mewn gwersi a drefnir fel hyn, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni gystal ag y gallent am nad yw'r gweithgareddau yn ddigon heriol neu am nad ydynt yn gofyn digon ganddynt.

**Cydweddu pabïau â galluoedd disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Llanidloes ger y Drenewydd ym Mhowys. Mae 306 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae rhyw 10% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan tua 11%. Mae'r ddwy gyfran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae cydlynydd celf arbenigol hyderus a gwybodus gan yr ysgol, ynghyd â chynorthwyydd addysgu sy'n arbennig o fedrus yn addysgu a modelu celf a dylunio. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi celf a dylunio drwy'r cwricwlwm, drwy arddangosfeydd lliwgar o waith disgyblion o amgylch yr ysgol a thrwy ystod eang o weithgareddau celf a dylunio allgyrsiol.

**Gweithredu**

Mewn gwers gelf ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae'r athro a'r cynorthwyydd addysgu yn cynllunio tasgau wedi'u gwahaniaethu'n ofalus i gyfateb i anghenion dysgu disgyblion. Mae'r rhain wedi'u seilio ar thema'r Ail Ryfel Byd, ac yn adeiladu ar brofiadau disgyblion o Ddydd y Cofio a'r pabïau a arddangoswyd yn Nhŵr Llundain. Mae'r athrawes yn rhoi ystyriaeth dda i'w hasesiadau o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn barod i nodi'r gweithgareddau ar gyfer y wers. Mae disgyblion is eu gallu yn gweithio gyda'r athrawes i ddatblygu'u defnydd o bersbectif. Maent yn paentio pabïau o feintiau gwahanol yn ofalus ar gefndir golch wedi'i gwblhau'n flaenorol. Mae grŵp arall yn torri a haenu papur sidan i greu pabïau o arlliwiau gwahanol, ac maent yn eu hamlinellu'n barod i'w harddangos. Mae un grŵp yn defnyddio clai i greu replicâu tri dimensiwn o'r pabïau ceramig yn Llundain. Mae'r athrawes yn eu herio i ganfod ffordd i sicrhau bod y petalau yr un trwch a'u bod i gyd yn glynu wrth ei gilydd. Mae grŵp sydd â medrau rheoli pensil wedi'u datblygu'n dda yn defnyddio pensiliau celf o wahanol galedwch i gynhyrchu braslun manwl o babi. Maent yn gweithio'n dawel wrth ganolbwyntio, gan ddefnyddio'r technegau braslunio y maent eisoes wedi'u haddysgu i gynhyrchu brasluniau arsylwadol manwl o safon uchel iawn. Yn olaf, mae grŵp yn gweithio gyda chynorthwyydd addysgu medrus i atgynhyrchu pabi pastel, bach ar grid mawr, gan ddefnyddio cyfrannedd i wneud yr helaethiad yn gwbl gywir.

**Deilliannau**

Mae pob grŵp yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau celf a dylunio oherwydd bod lefel yr her yn y tasgau yn cyfateb yn dda i fannau cychwyn bob grŵp. O ganlyniad, mae safonau disgyblion ar y lefelau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, neu uwchlaw hynny. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith celf, gan wybod y bydd y gwaith gorau yn cael ei arddangos o amgylch yr ysgol ac yn Oriel yr Ysgol.

47 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i athrawon asesu safonau disgyblion mewn pynciau sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, mae athrawon yn asesu cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau creadigol yn flynyddol, yn erbyn disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn aml, mae'r asesiadau hyn yn cael eu cwblhau yn adolygol fel cofnod o gyflawniadau disgyblion. Er bod athrawon arbenigol yn aml yn asesu cyflawniadau disgyblion yn gywir yn erbyn disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol, nid yw'r wybodaeth arbenigol gan athrawon dosbarth anarbenigol yn aml i allu nodi asesiad mewn cerdd a chelf a dylunio yn union gywir. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd drwy'r flwyddyn ysgol yn erbyn datganiadau o gyflawniad penodol a chynyddol. Mae arweinwyr yn cynorthwyo athrawon i safoni eu hasesiadau a nodi lle mae cynnydd yn arafu neu'n cyflymu. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell lle mae athrawon yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol i lywio'r camau nesaf i wella medrau disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, mae rhieni yn cael gweld tystiolaeth fideo hefyd sy'n dathlu cyflawniadau eu plentyn yn y celfyddydau creadigol.

48 Mewn llawer o'r gwersi gorau a arsylwyd ac yn y cynlluniau gwaith mwyaf effeithiol y craffwyd arnynt, ceir cysylltiadau cadarn â diwylliant artistig Cymru. Mewn llawer o ysgolion, mae cynlluniau gwaith wedi'u cynllunio'n dda yn defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig i wneud cysylltiadau perthnasol â hanes a daearyddiaeth lleoliad yr ysgol, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer celf, cerdd, dawns a drama yng Nghymru. Mae athrawon llwyddiannus yn manteisio'n weithredol ar yr adnoddau lleol cyfoethog ac amrywiol, er enghraifft, wrth ddefnyddio gwaith artistiaid a cherddorion Cymreig fel modelau i ysbrydoli disgyblion i ddysgu oddi wrthynt.

**Defnyddio oriel ysgol i gefnogi dysgu disgyblion trwy brofiad uniongyrchol**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Cas-mael yn ysgol gynradd wledig cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro. Mae 70 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 9% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 28% o ddisgyblion, ac mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 29% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gartref.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol yn berchen ar gasgliad trawiadol o dros 200 o weithiau celf gwreiddiol. Y pennaeth blaenorol, Alun Ifans, a roddodd y casgliad at ei gilydd. Mae'r gweithiau hyn wedi'u rhoi i'r ysgol gan artistiaid o Gymru, gan gynnwys David Tress, Stan Rosenthal, James Mackeown a Kyffin Williams. Defnyddir y gweithiau i gefnogi addysgu pwerus mewn gwersi celf a dylunio, ac fel ysgogiad ac ysbrydoliaeth ar gyfer gwersi creadigol

trawsgwricwlaidd. Roedd yr ysgol yn arfer cael ei harwain gan Waldo Williams, y bard o Gymro. Mae detholiad o'i waith gwreiddiol a phethau cofiadwy yn cael eu cadw yng nghyntedd mynedfa'r ysgol.

**Gweithredu**

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau celf disgyblion yn gynyddol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o dechnegau gwahanol, er enghraifft defnyddio pastelau, dyfrlliwiau a siarcol yn effeithiol. Maent hefyd yn gwneud defnydd dychmygus o lawer o'r gweithiau celf gwreiddiol i fodelu i ddisgyblion sut mae artistiaid gwahanol o Gymru yn cyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, bu disgyblion yn astudio testun y tywydd dros dymor. Maent yn canolbwyntio ar y technegau penodol a ddefnyddir gan y paentiwr David Tress, fel ymateb i wrthrychau go iawn mewn ffordd haniaethol, cyfuno impasto[9] gyda collage, a defnyddio lliwiau yn ddramatig. Mae athrawon yn cynorthwyo dealltwriaeth disgyblion drwy ddefnyddio gwaith gwreiddiol gan David Tress, o oriel yr ysgol. Mae disgyblion yn ystyried y lliwiau, y gwead a'r awyrgylch sy'n cael eu creu gan baentiadau penodol, cyn cymathu'r syniadau i greu eu gwaith gwreiddiol eu hunain. Hefyd, mae athrawon yn herio disgyblion i weithio ar draws ffurfiau gwahanol o gelf, er enghraifft i ymateb i waith celf a chyflwyno'u hymateb fel dawns. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn modelu cyfryngau a thechnegau artistig gwahanol yn hyderus ac yn gymwys.

**Deilliannau**

Mae disgyblion yn cyflawni safonau da ar draws amrywiaeth o ffurfiau celf, a gallant drosglwyddo'u dealltwriaeth artistig ar draws y ffurfiau celf gwahanol yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn dangos parch ac edmygedd mawr at gelf a diwylliant Cymru a arddangosir yn eu hysgol. Mae ganddynt ddealtwriaeth glir o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain. Maent yn siarad yn wybodus ac yn hoffus am artistiaid cyfarwydd, eu harddulliau a'u technegau.

## Darpariaeth allgyrsiol

49 Dywed yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a ymatebodd i'r holiadur ar gyfer adroddiad yr arolwg eu bod yn cymryd rhan mewn gwyliau a chystadlaethau i ddathlu'r celfyddydau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gydag Eisteddfod. Mae disgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau'r Eisteddfod yn fawr iawn, ac yn mwynhau'r cyfle i gystadlu a chymryd rhan gyda'u cyfoedion mewn llawer o berfformiadau ac arddangosfeydd celf. Mae eu cyfranogiad yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hymgysylltiad yn y celfyddydau creadigol.

50 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg (a lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg) y gwnaed arolwg ohonynt ac a ymwelwyd â nhw yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau'r celfyddydau creadigol yng nghystadleuaeth flynyddol yr Urdd. Bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn digwydd y tu allan i'r cwricwlwm ysgol


[9] Techneg paentio yw impasto, lle bydd paent yn cael ei osod yn drwchus iawn, fel bod strociau'r brws neu'r gyllell baentio i'w gweld.

gyfan, er enghraifft trwy ddosbarthiadau ychwanegol a gweithgareddau allgyrsiol. Mewn llawer o ysgolion, caiff y ddarpariaeth ychwanegol hon ei darparu gan rieni a darparwyr o'r tu allan, ac mae'n targedu disgyblion talentog yn benodol sy'n cyflawni safonau uchel iawn wrth berfformio'u ffurf gelfyddyd. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, gweithgareddau cystadleuol yr Urdd, y caiff disgyblion eu dewis ar eu cyfer, sy'n cael blaenoriaeth. O ganlyniad, gall disgyblion nad ydynt yn cael eu dewis i'w cynnwys golli allan ar weithgareddau allgyrsiol cyfoethog am ran o'r flwyddyn ysgol.

51 Mae'r holl ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt neu yr ymwelwyd â nhw yn cynnig hyfforddiant offerynnol mewn un neu fwy o offerynnau. Mae llawer o ysgolion yn cynnig hyfforddiant mewn sawl offeryn. Mewn ychydig o ysgolion, nododd arweinwyr y byddai'n well ganddynt gynnig hyfforddiant mewn offerynnau eraill, ond nid oeddent yn gallu sicrhau'r ddarpariaeth hon.

| Offeryn | Canran o ysgolion yn cynnig hyfforddiant |
|---|---:|
| Feiolin | 69% |
| Trwmped/corned | 56% |
| Recorder | 53% |
| Gitâr | 53% |
| Drymiau | 47% |
| Ffliwt | 47% |
| Clarinét | 44% |
| Soddgrwth | 34% |
| Piano/allweddell | 28% |
| Offeryn pres arall | 28% |
| Telyn | 6% |

52 Ymddengys bod y tabl uchod yn cyflwyno darlun cadarnhaol yn gyffredinol, ond mewn gwirionedd, nid oes digon o ddisgyblion yn dysgu offerynnau cerdd, ac mewn dros chwarter o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion (llai na 10%) sy'n cael gwersi offerynnol.




53 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, dywed disgyblion eu bod yn dysgu offeryn cerdd am ei fod yn hwyl. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhyw enwogrwydd yn perthyn i'r tiwtor offerynnol, er enghraifft chwarae mewn bandiau neu ymddangos ar y teledu. Dywed disgyblion mwy craff, er bod dechrau dysgu offeryn yn hwyl ac yn destun mwynhad, bod datblygu'n chwaraewr medrus yn waith caled, ac am y rheswm hwn dim ond am gyfnod byr y mae llawer o'u ffrindiau yn dysgu. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dweud ei bod yn haws dysgu offeryn mewn ysgolion lle gallwch ddysgu gyda'ch ffrindiau, er enghraifft lle mae cerddorfa neu fand yn yr ysgol i gefnogi'r dysgwyr, yn hytrach nag ar eich pen eich hun. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion yn dweud mai dim ond i gymryd rhan mewn cystadlaethau y maent yn dysgu offeryn cerdd.

54 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a ymatebodd i'r arolwg yn cynnig clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol neu amser cinio yn y celfyddydau creadigol.

| **Clwb neu weithgaredd** | **Canran o ysgolion** |
|---|---:|
| Côr | 84% |
| Celf a chrefft | 59% |
| Cyfryngau digidol/TGCh | 50% |
| Cerddorfa/band | 38% |
| Drama | 31% |
| Dawns (unrhyw fath ac eithrio dawnsio gwerin) | 31% |
| Recorders | 28% |
| Dawnsio gwerin Cymreig | 16% |
| Ysgrifennu creadigol neu farddoniaeth | 13% |

55 Mewn llawer o ysgolion, mae'r gweithgareddau allgyrsiol hyn yn cael eu cynnal yn wirfoddol gan athrawon. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynnal clybiau a

gweithgareddau mewn ychydig iawn o ysgolion hefyd. Dywed ychydig o ysgolion fod nifer y clybiau allgyrsiol â ffocws creadigol wedi dirywio'n ddiweddar, oherwydd gofynion cynyddol ar amser athrawon.

**Canu yn y côr**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Twm o'r Nant yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych. Mae 281 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 8% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan 19% o ddisgyblion. Mae'r cyfrannau hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf gartref.

**Strategaeth**

Mae gan yr ysgol draddodiad hirsefydledig o ddarpariaeth ansawdd uchel ar gyfer y celfyddydau creadigol a'r Urdd. Gweledigaeth yr arweinwyr yw darparu'r cyfle i bob disgybl brofi cyfoeth y celfyddydau o fewn y cwricwlwm a thu hwnt, tra'u bod yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn chwilio am gyfleoedd i ddisgyblion fwynhau diwylliant Cymru yn uniongyrchol, trwy bartneriaethau ag artistiaid a pherfformwyr lleol.

**Gweithredu**

Mae'r côr ar ôl ysgol yn ddigwyddiad cymdeithasol ar gyfer hyd at 100 o ddisgyblion. Mae sawl aelod o staff yn cynorthwyo'r côr ac yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion i ddatblygu'u medrau canu. Dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn edrych ymlaen at fynychu'r côr pan fyddant yn ddigon hen. Mae statws i'r côr o fewn yr ysgol, a chaiff eu cyflawniadau eu dathlu'n gyhoeddus. Maent yn aml yn cael ymwelwyr enwog o Gymru i'w helpu gyda'u canu, er enghraifft y cerddorion/cyfansoddwyr Dafydd Iwan a Caryl Parry Jones, a'r telynor Dylan Cernyw.

**Effaith**

Mae'r disgyblion yn amlwg yn mwynhau dysgu a chanu ystod eang o ganeuon, yn yr ysgol a thu hwnt. Mae ganddynt wybodaeth dda am gantorion, cerddorion a chyfansoddwyr Cymreig poblogaidd a chyfredol, ac mae hyn yn cyfrannu at eu synnwyr datblygedig o hunaniaeth ddiwylliannol.

56 Mae llawer o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn cynnwys ymweliadau â digwyddiadau diwylliannol, ac maent hefyd yn cael ymweliadau gan sefydliadau'r celfyddydau a threftadaeth.

| **Mynd â disgyblion allan o'r ysgol i ymweld â:** | | **Derbyn ymweliadau yn yr ysgol gan:** | |
|---|---|---|---|
| Safle treftadaeth (e.e. castell) | 75% | Cwmnïau dawns/drama | 69% |
| Theatr | 72% | Awduron | 56% |
| Amgueddfeydd | 59% | Cerddorion | 50% |
| Cyngerdd/digwyddiad cerddorol | 44% | Artistiaid gweledol (e.e. paentwyr, cerflunwyr) | 38% |
| Oriel gelf | 19% | Sefydliadau treftadaeth | 16% |
| | | Clybiau ffilm | 13% |

57 Gofynnwyd i arweinwyr nodi p'un a ydynt o'r farn fod ymweliadau ac ymwelwyr gwahanol y celfyddydau a diwylliant yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Dywed llawer o ysgolion fod effeithiolrwydd ymweliad yn dibynnu ar fanylder y gwaith paratoi a gwaith dilynol y bydd disgyblion yn ei wneud. Mae llawer o arweinwyr yn dweud mai ymweliadau sy'n cael eu cynllunio'n drwyadl a'u hymgorffori yng nghwricwlwm yr ysgol sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at gynnydd disgyblion. Maent yn adrodd mai cyfraniad cyfyngedig yn gyffredinol y bydd ymweliadau ac ymwelwyr achlysurol neu untro yn ei wneud at ddilyniant dysgu a medrau cynlluniedig.

58 Mae arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn nodi bod prinder partneriaethau celfyddydau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i'w defnyddio, yn enwedig mewn theatr a drama.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Gweledigaeth arweinwyr

59 Yn ddieithriad, yn yr ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn rhannu gweledigaeth hollgynhwysol ar gyfer y celfyddydau creadigol a'u pwysigrwydd mewn addysg disgyblion gyda staff, disgyblion a rhieni. Maent yn mynegi'r argyhoeddiad fod y celfyddydau creadigol yn cyfrannu at wella deilliannau cymdeithasol, addysgol ac economaidd ar gyfer pobl ifanc. Maent yn rhoi enghreifftiau o'r modd y mae'r celfyddydau creadigol yn helpu datblygu cyn-ddisgyblion yn bobl gyflawn, wedi'u haddysgu'n dda, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas.

60 Mae'r arweinwyr hyn yn cydnabod rhan ganolog darllen, ysgrifennu a mathemateg yn eu hysgol. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd i sicrhau bod y celfyddydau creadigol yn gwella cyflawniadau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, er enghraifft trwy ddarparu profiadau i siarad ac ysgrifennu amdanynt. Dywed arweinwyr, lle mae athrawon yn gwneud defnydd da o ddilyniant medrau cynlluniedig, ac yn cyflwyno gwersi celfyddydau creadigol cyffrous mewn modd

dychmygus, mae cyflawniadau disgyblion mewn pynciau eraill yn gwella. Mae llawer o arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o wynebu a mynd i'r afael â'r tensiynau rhwng atebolrwydd i wella deilliannau disgyblion, mewn llythrennedd a rhifedd er enghraifft, a chynnal a gwella safle'r celfyddydau creadigol yn eu hysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae pob disgybl yn derbyn cwricwlwm eang, difyr sy'n cynnwys dyraniad amser ac adnoddau addas ar gyfer datblygu'r celfyddydau creadigol.

61 Mae arweinwyr arloesol yn defnyddio cyfleoedd yn y celfyddydau yn arbennig o dda i ddatblygu a gwella lles disgyblion. Maent yn casglu tystiolaeth i ddangos bod y celfyddydau creadigol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu hunan-barch disgyblion, gwella presenoldeb ac ymddygiad, a hyrwyddo diwylliant cynhwysol, goddefgar ac ymdeimlad cryf o gymuned. Maent yn defnyddio'r dystiolaeth yn dda i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel, gan gynnwys y corff llywodraethol, yn talu sylw da i gyflwyno'r celfyddydau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mewn lleiafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o asesiadau bugeiliol yn dda. Maent yn cymharu'r canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Maent yn defnyddio agweddau ar y data i greu gwaelodlinau cyn dechrau ymyriadau a phrosiectau celfyddydau creadigol. Weithiau, caiff y gweithgareddau hyn eu hariannu gan grantiau, fel y grant amddifadedd disgyblion, gan dargedu disgyblion y gall eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni. Gall y gweithgareddau fod o fewn y cwricwlwm, neu gael eu cynnal fel gweithgareddau ar ôl ysgol. Pan fydd y prosiect neu'r perfformiad wedi'i gwblhau, mae arweinwyr yn defnyddio'r un asesiadau eto i fesur effaith y gweithgarwch. Maent yn arfarnu ei lwyddiant yn ofalus ac yn defnyddio'u harfarniadau i flaenoriaethu gweithgareddau pellach a ddewisir yn dda.

62 Mewn llawer o ysgolion arfer orau, mae athrawon ac arweinwyr yn dewis profiadau celfyddydau creadigol i ddisgyblion y maent yn gwybod y gallant elwa o fod yn ganolbwynt sylw am y rhesymau iawn. Lle bo'n briodol, maent yn darparu gwisg 'cyngerdd' addas ar gyfer disgyblion targedig, ac yn eu cynorthwyo i ddysgu geiriau, rhannau a gweithredoedd. Maent yn cefnogi rhieni a gofalwyr i fynd â'r disgybl yn ôl a blaen o ymarferiadau a pherfformiadau. Maent yn dathlu llwyddiant y disgyblion yn agored, ac wedyn yn eu hatgoffa o ganlyniadau eu gwaith caled a'u dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu anawsterau mewn meysydd eraill. Cred yr arweinwyr hyn, os nad yw ysgolion yn darparu cyfleoedd artistig buddiol i ddisgyblion, efallai na chânt fyth gyfleoedd nes ymlaen mewn bywyd i gyfranogi a llwyddo yn y celfyddydau neu mewn meysydd eraill o'u bywydau.

63 Mewn llawer o'r ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw ac yn yr ysgolion a fu'n rhan o'r arolwg, mae arweinwyr a rheolwyr yn agored ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys pob disgybl yn y ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i bob disgybl gymryd rhan mewn perfformiadau, gwyliau ac amrywiaeth lawn y cwricwlwm celfyddydau, yn enwedig y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n fwy abl. Mae arweinwyr yn arwain disgyblion mwy abl i ddatblygu ffyrdd gwahanol, creadigol o feddwl a gweithio. Maent yn eu haddysgu i ddelio â'r rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â phroblemau pan nad oes yr un ateb cywir. Maent yn defnyddio profiadau'r celfyddydau creadigol i gyfoethogi'r dysgu ar gyfer disgyblion abl mewn ffyrdd heriol ac arloesol, er enghraifft drwy ymdrechu i sicrhau gwaith o ansawdd uchel iawn drwy ymarfer dwys lle telir sylw o bob manylyn. Yn yr un modd, mae

arweinwyr ysbrydoledig yn targedu'r disgyblion hynny'n sy'n ei chael yn anodd yn academaidd ond sy'n datblygu talent mewn celfyddyd greadigol, gan eu hannog i ymdrechu i gyflawni safonau uchel, a meithrin eu dyheadau a'u hunan-barch.

**Arweinwyr pwnc ar gyfer y celfyddydau**

64 Mewn llawer o'r ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, naill ai'r pennaeth neu uwch aelod o staff yw'r arweinydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y celfyddydau creadigol. Er enghraifft, mewn un ysgol fawr, mae pob un o'r tri uwch arweinydd yn ymgymryd â chyfrifoldeb naill ai am lythrennedd, rhifedd neu'r celfyddydau creadigol. Maent yn cynorthwyo'r pennaeth nad yw'n addysgu a'r dirprwy bennaeth i ffurfio'r uwch dîm arwain. Mae hyn yn cyfleu'n effeithiol i rieni, disgyblion a llywodraethwyr fod y celfyddydau creadigol yr un mor bwysig â llythrennedd a rhifedd. Mewn ychydig o ysgolion, mae athro llai profiadol ond talentog yn arwain eu pwnc celfyddydau drwy enghraifft ar draws yr ysgol. Yn aml, bydd penaethiaid yn cefnogi'r arweinwyr hyn yn effeithiol, gan gydnabod a datblygu'u cryfderau a'u medrau arwain. Serch hynny, lle mae arweinydd y celfyddydau creadigol hefyd yn uwch reolwr, mae'r ysgol yn amlach yn cynnwys mentrau celfyddydau creadigol wedi'u cynllunio'n dda a'u harfarnu o fewn ei strategaethau gwella.

65 Er bod arweinwyr pwnc yn monitro darpariaeth yr ysgol yn briodol mewn llawer o ysgolion, ychydig iawn o arweinwyr sy'n mynd ati i fonitro safonau yn y celfyddydau creadigol. Lle mae arweinwyr yn arsylwi gwersi yn y celfyddydau creadigol, mae'r rhain yn cael eu cwblhau fel arsylwadau cymheiriaid yn aml. Nid yw athrawon yn gweld bod yr un pwysigrwydd neu bwyslais ar yr arsylwadau hyn ag arsylwadau o reoli perfformiad, er enghraifft. Lle mae arweinwyr yn cwblhau crynodebau ysgrifenedig o wersi'r celfyddydau creadigol, mae eu ffocws yn rhy aml ar ymgysylltiad a mwynhad disgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau, yn hytrach nag effaith addysgu a darpariaeth arall ar wella medrau a safonau disgyblion yn gynyddol yn y celfyddydau creadigol. Mae hyn yn aml oherwydd bod arweinwyr yn teimlo dan bwysau oddi wrth gynghorwyr i ganolbwyntio'u gwaith monitro safonau ar y pynciau craidd, yn enwedig llythrennedd a rhifedd.

66 Mae arweinwyr pwnc yn aml yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gerddoriaeth a chelf a dylunio yn eu hysgol. Fel arfer, mae'r rhain yn seiliedig ar eu gwaith monitro darpariaeth, er enghraifft craffu ar gynlluniau athrawon, siarad â disgyblion ac arsylwadau achlysurol o gymheiriaid. Mewn ychydig o ysgolion, mae adroddiadau pwnc ar gyfer addysg gorfforol yn cynnwys safonau a darpariaeth mewn dawns, ac ar gyfer drama mewn Saesneg. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr pwnc yn adrodd yn gywir ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni a'r cynnydd a wneir ganddynt. Mae adroddiadau arweinwyr pwnc fel arfer yn rhoi gwybodaeth i uwch arweinwyr, penaethiaid a llywodraethwyr am safonau a darpariaeth yn yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff y canfyddiadau eu cynnwys yn adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol, er nad yw hyn yn digwydd yn gyson.

67 Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y celfyddydau creadigol yn creu cynlluniau gwaith sy'n cynnwys blaenoriaethau mewn dawns, drama, cerddoriaeth, celf a dylunio, ac maent yn aml yn cynnwys cyfryngau digidol, barddoniaeth ac ysgrifennu creadigol (naill ai mewn Cymraeg neu Saesneg). Mae'r cynlluniau hyn yn fanwl, cadarn ac wedi'u

costio’n ofalus fel arfer.  Mae arweinwyr yn neilltuo tasgau ac adnoddau yn briodol i staff.  Maent yn monitro ac yn arfarnu’r cynlluniau gweithredu hyn yn dda yn aml, ac mae’r camau gweithredu yn cyfrannu’n gadarnhaol at wella’r ysgol gyfan.  Yn rhannol, mae’r gwelliannau’n digwydd am fod uwch arweinwyr yn hyrwyddo’r blaenoriaethau ar lefel strategol.  Fodd bynnag, mae’r gwelliannau hefyd yn deillio o’r ymrwymiad a ddangosir gan bob un o’r staff at wneud y celfyddydau creadigol yn rhan hollgynhwysol o ddarpariaeth yr ysgol.  O ganlyniad, mae’r holl staff yn rhannu gweledigaeth ac ethos ar gyfer yr ysgol sy’n rhoi statws uchel i’r celfyddydau creadigol.

68 Mae llawer o arweinwyr pwnc cerddoriaeth a chelf a dylunio yn creu cynlluniau gweithredu ar gyfer eu pynciau.  Yn rhy aml, fodd bynnag, nid yw’r rhain yn cynnwys meini prawf llwyddo pendant y gellir eu mesur, ac nid yw’r camau a nodwyd yn ddigon penodol neu fanwl i sicrhau gwelliannau.  Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn nodi blaenoriaethau gwella ar gyfer drama drwy eu cynlluniau gweithredu Saesneg, neu ddawns drwy eu cynlluniau gweithredu addysg gorfforol.  Yn aml, mae ysgolion yn dyrannu swm sylweddol o’u cyllideb flynyddol i’r celfyddydau creadigol, er enghraifft wrth ariannu hyfforddiant cerdd neu brynu adnoddau ar gyfer celf a dylunio.  Fodd bynnag, nid yw pob arweinydd yn monitro neu’n arfarnu’r cynlluniau i ddefnyddio’r cyllid hwn yn ddigon gofalus i wybod p’un a yw’r gyllideb yn cael ei gwario’n effeithiol.  Ychydig iawn o arweinwyr pwnc sy’n mynd ati’n rheolaidd i arfarnu llwyddiant cynlluniau gweithredu blaenorol.  O ganlyniad, cyfraniad cyfyngedig y mae’r cynlluniau’n ei wneud at wella’r ysgol gyfan.

69 Mewn llawer o ysgolion arfer orau, mae arweinwyr pwnc wedi creu cynlluniau gwaith cynhwysfawr ar gyfer celf a cherddoriaeth, dawns o fewn addysg gorfforol a drama o fewn llefaredd neu lythrennedd.  Yn aml, mae’r rhain yn cynnwys arweiniad manwl ar gyfer athrawon anarbenigol a chronfa ddigidol o adnoddau clyweled.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae’r cynlluniau’n rhai blaengar ac yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau wedi’u gwahaniaethu’n ofalus i gefnogi athrawon wrth gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion gwahanol.  Maent yn cynnwys partneriaethau, teithiau ac ymweliadau wedi’u dewis yn dda i wella dysgu disgyblion.  Maent yn cysylltu’n dda â’r cwricwlwm thematig, ac yn darparu cyfleoedd wedi’u dewis yn dda ar gyfer dysgu arwahanol o fedrau penodol i bwnc.  Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, mae’r cynlluniau yn canolbwyntio’n gyfan gwbl ar sicrhau ystod eang o brofiadau ar draul dilyniant mewn datblygu medrau penodol, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y celfyddydau creadigol.

70 Mae athrawon yn y rhan fwyaf o ysgolion yn adrodd i rieni yn flynyddol o leiaf ar gynnydd disgyblion yn y celfyddydau creadigol, ond nid oes llawer o asesu rheolaidd a chadarn o safonau.  O ganlyniad, nid yw arweinwyr mewn sefyllfa dda yn aml i ddadansoddi na defnyddio deilliannau asesiadau athrawon i wella safonau disgyblion.  Mae tystiolaeth anecdotaidd gan arweinwyr yn aml o ble y gall cynnydd a safonau mewn pynciau’r celfyddydau creadigol fod yn dda, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn asesiadau ffurfiol yn aml.

71 Mewn mwyafrif o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw athrawon yn safoni’u hasesiadau anstatudol o’r hyn y gall disgyblion ei wneud i sicrhau ei fod yn gywir a chyson ar draws yr ysgol.  Mae llawer o athrawon, yn enwedig y rheini nad yw’r hyder ganddynt i addysgu’r celfyddydau creadigol, yn dweud eu bod yn ansicr

ynghylch cywirdeb eu hasesiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweiniad manwl i gynorthwyo ysgolion wrth asesu cyflawniad disgyblion mewn cerddoriaeth ac mewn celf a dylunio, ond ychydig iawn o ysgolion sy'n cyfarwyddo staff i gyfeirio at y deunyddiau sy'n dangos safonau ar lefelau gwahanol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Dim ond ychydig o arweinwyr sydd wedi darparu hyfforddiant i athrawon ar sut i asesu cyflawniadau disgyblion, neu roi enghreifftiau iddynt o'r safonau y maent yn disgwyl i ddisgyblion eu cyflawni. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon ac arweinwyr yn safoni ac yn craffu ar asesiadau ffurfiannol cyfredol o gyflawniadau disgyblion, ac ategir y rhain gan dystiolaeth eang o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, wedi'i recordio'n ddigidol yn aml. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio asesiadau i sefydlu'r mannau cychwyn cywir mewn gwersi ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, ac maent yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i hynny. Mae arweinwyr yn defnyddio'u trosolwg o gynnydd disgyblion i lywio a gwella'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

**Blodeuwedd** [10]

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Cynwyd Sant yn ysgol cyfrwng Cymraeg ym Maesteg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae 301 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfran o ddisgyblion y nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol ganddynt ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

**Strategaeth**

Mae athrawon yn sicrhau bod y celfyddydau creadigol a dramatig yn cael eu cynrychioli'n dda ar draws y cwricwlwm. Mae darllen ac ysgrifennu yn bwrpasol am fod disgyblion yn cael cyfleoedd aml, wedi'u dewis yn dda i berfformio'u gwaith i gynulleidfa. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o dechnolegau, fel pleidleisio rhyngweithiol, fel bod disgyblion yn gallu asesu gwaith ei gilydd yn gyflym yn erbyn y meini prawf llwyddo. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn asesu a'u bod yn cyfrannu'n dda at y drafodaeth ynglŷn â sut i wella eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

**Gweithredu**

Mae dosbarth Blwyddyn 5 a 6 yn astudio stori Blodeuwedd. Yn ystod yr wythnos, mae'r disgyblion yn gweithio mewn pedwar grŵp i ailysgrifennu'r stori fel sgript drama. Maent yn ymarfer eu rolau, yn ysgrifennu caneuon ac yn dewis y gwisgoedd, yn barod ar gyfer cynhyrchiad ar ddiwedd yr wythnos.

Ar ddechrau gwers y perfformiad, mae'r athro dosbarth yn trafod yr agweddau pwysig ar y cynhyrchiad i sicrhau bod pob disgybl yn deall fod angen iddynt gynnwys elfennau dramatig, fel rhediad, emosiwn a dynameg, yn eu perfformiadau unigol.

[10] Blodeuwedd – merch wedi'i gwneud o flodau gan Math. Mae ei stori yn rhan o bedwaredd cainc y Mabinogi, sef chwedl Math mab Mathonwy.

Mae pob un o’r grwpiau yn gwasgaru o amgylch yr ysgol i ymarfer eu perfformiad cyn ffilmio’r fersiwn derfynol ar lechen electronig. Mae dau grŵp yn gweithio’n annibynnol ac mae’r ddau grŵp arall yn gweithio gyda’r athro a’r cynorthwyydd cymorth dysgu. Maent i gyd yn recordio’u cynhyrchiad fel clipiau fideo yn llwyddiannus. Ar ddiwedd y sesiwn, mae’r disgyblion yn mynd yn ôl i’r dosbarth i arfarnu gwaith ei gilydd. Maent yn defnyddio cymhwysiad pleidleisio electronig i asesu a graddio medrau perfformio pob grŵp yn eu tro.

**Deilliant**

Fe wnaeth y sesiwn perfformio lwyddiannus hon adeiladu ar wythnos o baratoi’r sgript, ysgrifennu caneuon a datblygu cymeriadau. Fe wnaeth yr athro addasu’r tasgau a’r grwpiau yn dda i fodloni anghenion a galluoedd amrywiol y disgyblion ac i sicrhau bod pob grŵp yn cwblhau’u tasgau yn effeithiol o fewn yr amser dynodedig. Recordiwyd eu perfformiadau yn llwyddiannus gan bob grŵp, a rhoddwyd adborth adeiladol ganddynt i helpu’u cyfoedion i wella eu gwaith. Roeddent yn deall y meini prawf yr oedd eu hathrawon yn eu defnyddio i asesu perfformiad disgyblion, ac roeddent yn gwybod beth i wneud nesaf er mwyn gwella eu gwaith mewn drama.

**Recriwtio a defnyddio staff**

72 Mae safonau a arsylwyd yn ystod yr ymweliadau arfer orau ar eu huchaf pan fydd ysgolion yn defnyddio staff yn dda. Lle maent wedi nodi bylchau yn arbenigedd staff, mae llawer wedi dod o hyd i ffyrdd i gyflogi staff ychwanegol gyda’r medrau arbenigol angenrheidiol. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn yn ganlyniad cysylltiadau â gwasanaethau awdurdod lleol. Mae rhyw hanner yr ysgolion yn defnyddio oedolion â medrau yn y celfyddydau creadigol i gyflenwi yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mewn ychydig o ysgolion, roedd gwersi celfyddydau creadigol yn cael eu cyflwyno gan ymarferwyr arbenigol rhan-amser yn y gorffennol, ond rhoddwyd y gorau i hyn yn sgil pwysau ariannol. Mae’r gwersi hyn bellach yn cael eu haddysgu’n gyffredinol gan athrawon dosbarth anarbenigol, nad yw’r wybodaeth bynciol na’r hyder ganddynt bob amser i addysgu’r celfyddydau creadigol i safon uchel.

73 Mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg yr ymwelwyd â nhw, mae deiliad swydd y celfyddydau creadigol wedi ymddeol yn ddiweddar, ac nid yw’r ysgol wedi gallu penodi olynydd gyda chryfderau cwricwlwm tebyg yn y celfyddydau creadigol, er yr hysbysebwyd am y gallu i gyfrannu at ddiwylliant egnïol o gelfyddydau perfformio yn yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae’r celfyddydau creadigol yn parhau i elwa ar yr hyn a etifeddwyd ar ôl y deiliad swydd blaenorol, ond mae arweinwyr yn mynegi pryderon ynglŷn â dyfodol y celfyddydau creadigol os na allant recriwtio arweinydd pwnc priodol o gymwys. Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, dywed penaethiaid eu bod yn pryderu ynghylch cynllunio olyniaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol am nad oes gan ddigon o athrawon sy’n ymuno â’r proffesiwn y wybodaeth a’r arbenigedd i arwain y celfyddydau creadigol.

74 I gyferbynnu â hynny, nid oedd yr un o’r ysgolion arfer orau cyfrwng Cymraeg wedi cael problemau yn recriwtio athrawon a oedd yn gallu arwain a hyrwyddo’r celfyddydau creadigol. Er enghraifft, cafodd un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

maint canolig 15 o geisiadau cymwys iawn yn ddiweddar am swydd addysgu yn yr ystafell ddosbarth fel arbenigwr cerdd. Yn yr ysgolion hyn yn aml, mae bron pob athro a chynorthwyydd addysgu yn hyderus i fodelu ac arwain y celfyddydau creadigol. Dywed llawer o athrawon cyfrwng Cymraeg eu bod wedi meithrin yr hyder a'r arbenigedd yn perfformio drwy'r Urdd pan oeddent yn yr ysgol, ac roeddent am rannu hyn gyda'r genhedlaeth nesaf o ddisgyblion. Mae hyn yn helpu hyrwyddo ymdeimlad cadarn o hunaniaeth ddiwylliannol.

## Cyllid, hyfforddiant a phartneriaethau

75 Nid yw tua hanner yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg neu yr ymwelwyd â nhw yn codi tâl ar ddisgyblion am gymryd rhan mewn gweithgareddau'r celfyddydau creadigol. Mae lleiafrif o ysgolion yn hepgor neu'n lleihau taliadau ar gyfer disgyblion o deuluoedd tlotach, er eu bod yn disgwyl i rieni eraill dalu. Dywed ychydig o ysgolion eu bod yn disgwyl i bob disgybl gyfrannu tuag at weithgareddau'r celfyddydau creadigol, waeth beth yw eu cefndir, er bod llawer yn caniatáu talu fesul dipyn. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn ceisio am grantiau y byddant yn eu defnyddio i ariannu mentrau yn y celfyddydau creadigol. Mae llawer o ysgolion yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n cyfranogi a'u teuluoedd, er enghraifft i fynychu gwasanaethau carolau a gwyliau. Mae lleiafrif o ysgolion yn gwneud defnydd dilys o'r grant amddifadedd disgyblion i sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael cyfle cyfartal i astudio'r celfyddydau creadigol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad buddiol yn ddiweddar i helpu ysgolion i wneud defnydd da o'r grant amddifadedd disgyblion ar gyfer gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol[11].

76 Mae cost gwersi offerynnol yn amrywio ar draws yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Nid yw tua hanner yr ysgolion yn codi tâl ar unrhyw ddisgybl am wersi offerynnol. Mae'r ysgol yn dyrannu arian o'i chyllideb, ac weithiau mae'n defnyddio arian ei grant amddifadedd disgyblion i gefnogi gwersi offerynnol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw un ysgol yn codi tâl am y flwyddyn gyntaf o hyfforddiant, ond mae'n gofyn i rieni disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i brynu eu hofferyn eu hunain ar ôl yr amser hwn, fel arwydd o'u hymrwymiad i ddysgu. Mae llawer o ysgolion yn rhoi cymhorthdal tuag at gost gwersi offerynnol. Serch hynny, mewn ychydig iawn o ysgolion, mae rhieni yn talu dros £100 y tymor i'w plentyn ddysgu canu offeryn. Er bod llawer o ysgolion yn monitro'n ofalus nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cael gwersi offerynnol, ac yn gweithio i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i ddysgu, nid yw hyn yn wir bob amser.

[11] Saesneg: http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-in-support-of-arts/?lang=en;
Cymraeg: http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-in-support-of-arts/?lang=cy

**Defnyddio hyfforddiant offeryn cerdd yn y Cyfnod Sylfaen i ysbrydoli mwy o ddisgyblion i ddysgu canu offeryn yng nghyfnod allweddol 2**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Llanyrafon yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Nhorfaen, ac mae 370 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae rhyw 5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 35% o ddisgyblion, sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd.

**Strategaeth**

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Llanyrafon yn ystyriol o annhegwch darparu hyfforddiant offerynnau cerdd i rai disgyblion ac nid rhai eraill. O ganlyniad, maent wedi cymryd camau i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu offeryn cerdd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, drwy ddarparu gwersi feiolin am flwyddyn yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithredu**

Mae pob disgybl yn dysgu chwarae'r feiolin yn ystod y flwyddyn dderbyn. Caiff y gwersi offerynnol wythnosol hyn eu harwain gan aelodau o wasanaeth cerdd yr awdurdod lleol. Caiff cost y gwersi ei thalu gan yr ysgol o'i chyllideb, ac ni ofynnir ii rieni gyfrannu. Pan fydd disgyblion yn mynd i mewn i gyfnod allweddol 2, cânt y cyfle i ddysgu nifer o offerynnau cerdd. Mae'r ysgol yn gofyn am gyfraniad o £30 y tymor gan rieni tuag at gost y gwersi hyn, ac mae'n talu gweddill y gost o gyllideb yr ysgol.

**Deilliannau**

Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn nodi llawer o ddeilliannau gwell o ganlyniad i'r prosiect, gan gynnwys gwelliannau i les disgyblion (ymgysylltiad, hyder, hunan-barch, canolbwyntio) a gallu cerddorol (canu a gwaith rhythm, darllen nodiant yn gynnar). Caiff y deilliannau gwell hyn eu cynnal y tu hwnt i'r gwersi offerynnol.

Ers dechrau'r prosiect llinynnau ar gyfer disgyblion derbyn yn 2009-2010, mae nifer y disgyblion sy'n dysgu offerynnau yng nghyfnod allweddol 2 wedi cynyddu ryw 40%. Ar hyn o bryd, mae 34% o gyfnod allweddol 2 (74 o ddisgyblion) yn dysgu amrywiaeth o offerynnau cerdd yn ystod amser ysgol.

77 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ychydig iawn o athrawon oedd wedi mynychu unrhyw hyfforddiant yn y celfyddydau creadigol yn ddiweddar. Mae llawer o benaethiaid yn rhwystredig ynghylch pa mor gyfyng yw'r cyfleoedd hyfforddi fforddiadwy sydd ar gael i athrawon yn y celfyddydau creadigol. Dywed arweinwyr ar bob lefel fod diffyg hyfforddiant yn eu hatal rhag gwella safonau yn eu hysgol yn y celfyddydau creadigol.

78 Mae gwaith partneriaeth llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn y celfyddydau creadigol yn darparu cyfleoedd i athrawon ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau proffesiynol eu hunain. Ar yr ychydig o achlysuron lle mae athrawon a

chynorthwywyr addysgu wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar, maent yn gallu nodi effaith amlwg eu hyfforddiant ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion yn y celfyddydau creadigol a phynciau eraill, er enghraifft, mewn safonau gwell mewn llefaredd.

79 Mewn llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ac yn yr ymatebion i'r arolwg, mae cyfleoedd partneriaeth cadarnhaol gydag ysgolion uwchradd yn cefnogi ac yn annog y celfyddydau creadigol. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon arbenigol uwchradd yn rhannu'u medrau drwy addysgu disgyblion hŷn am nifer fach o wersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, yn enwedig lle ceir canfyddiad nad yw'r celfyddydau creadigol yn flaenoriaeth yn yr ysgol uwchradd, effaith gyfyngedig a gaiff y bartneriaeth hon ar hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad yn y celfyddydau creadigol.

80 Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion arfer orau yn cynorthwyo ysgolion eraill drwy gynnal gwersi enghreifftiol a chynnal cyfarfodydd clwstwr i drafod y celfyddydau creadigol. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon wedi gweithio gyda'i gilydd ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y celfyddydau creadigol.

**Gweithio ar y cyd i rannu arfer dda**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Iau Llangewydd yn ysgol cyfrwng Saesneg, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 315 o ddisgyblion rhwng saith ac 11 oed ar y gofrestr. Mae rhyw 29% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 31% o ddisgyblion, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd.

**Strategaeth**

Yn Ysgol Iau Llangewydd, mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r celfyddydau fel rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi penodi nifer dda o athrawon y celfyddydau creadigol sy'n meddu ar gymwysterau da, yn enwedig ar gyfer cerddoriaeth. Mae arweinwyr yn penodi staff gyda medrau addysgu, gwybodaeth ac arbenigedd generig da. Hefyd, mae'r pennaeth yn chwilio am staff a fydd yn 'ymrwymo' i hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau creadigol. Er enghraifft, mae athro yn mynd ati'n wirfoddol i drefnu caffi celf ar ôl ysgol, lle gall rhieni a'u plant gymryd rhan mewn gweithgareddau celf. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r profiad o gymryd rhan yn yr Eisteddfod flynyddol am eu bod yn dweud ei fod yn gwella eu medrau celfyddydau creadigol, eu hunanhyder a'u hunan-barch.

**Gweithredu**

Mae athrawon yn cysylltu â'r ysgol fabanod fwydo i gyflwyno gwersi cerdd a chelf a dylunio ar y cyd. Mae'r ysgol wedi dyfeisio portffolios safoni ar draws cyfnodau rhwng y ddwy ysgol i roi gwybod i staff am safonau yn y celfyddydau creadigol. Mae'r ymarferydd arweiniol yn gweithio gydag ysgolion lleol eraill i rannu arfer orau ac i gefnogi datblygu darpariaeth celfyddydau creadigol mewn ysgolion cyfagos.

**Deilliannau**

Mae gweithio gyda'i gilydd ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi galluogi staff i ddatblygu ymwybyddiaeth o safonau a ddisgwylir ac i gytuno ar beth yw'r cynnydd a ddisgwylir yn y celfyddydau. O ganlyniad, mae asesiad yr athrawon yn ddilys a chywir, ac fe'i defnyddir yn dda i lywio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion ac yn narpariaeth yr ysgol. Mae rhannu arfer orau gydag ysgolion lleol eraill yn annog yr ysgolion i fyfyrio'n onest ac yn adeiladol ar eu harfer eu hunain.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

## Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn deillio o ymweliadau ag 20 o ysgolion cynradd. Cafodd yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau eu nodi fel rhai ag arfer gadarn yn y celfyddydau creadigol o ganlyniad i arolygiadau Estyn neu drwy eu hymglymiad mewn ystod o brosiectau celfyddydau creadigol cenedlaethol. Mae'r sampl yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd-gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Yn yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn arsylwi gwersi celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2
- yn adolygu cynlluniau'r cwricwlwm a dogfennau
- yn cyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion
- yn cynnal trafodaethau gydag arweinwyr canol ac uwch arweinwyr

Yn ogystal, gwahoddodd Estyn 150 o ysgolion cynradd i ymateb i arolwg ar-lein ynglŷn â'u darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2. Roedd yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer y sampl hon yn cynnwys sampl ar hap a oedd yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd-gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Darparwyd ymatebion gan 32 o ysgolion (rhyw 21%) i'r arolwg ar-lein.

## Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir (Yr Eglwys yng Nghymru) Christchurch, Abertawe
Ysgol Gynradd Fenton, Sir Benfro
Ysgol Iau Hafren, Powys
Ysgol Iau Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Llanidloes, Powys
Ysgol Gynradd Llanyrafon, Torfaen
Ysgol Iau Aberdaugleddau, Sir Benfro
Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd
Ysgol Gynradd Sirol Cas-mael, Sir Benfro
Ysgol Gynradd Tredelerch, Caerdydd
Ysgol Gynradd Tywyn, Port Talbot
Ysgol Gynradd Ynystawe, Abertawe
Ysgol Cynwyd Sant, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Eifion Wyn, Gwynedd
Ysgol Glancegin, Gwynedd
Ysgol Glanwydden, Conwy
Ysgol Iolo Morgannwg, Bro Morgannwg
Ysgol Treganna, Caerdydd
Ysgol Twm o'r Nant, Sir Ddinbych
Ysgol-Y-Wern, Caerdydd

## Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **Cerdd Dant** | Mae Cerdd Dant yn draddodiad unigryw yng Nghymru o ganu geiriau i gyfeiliant telyn. Mae Cerdd Dant yn cynnwys rheolau llym ynghylch mesur, odl, a chyflymiad. Mae telyn yn canu'r alaw tra bod y canwr yn addasu ei harmoni ei hun wrth ganu cerdd. Pan fydd wedi'i nodi'n ysgrifenedig, gelwir yr alaw yn 'osodiad'. |
| **Y Cwricwlwm Cymreig** | Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan o'r cwricwlwm sy'n unigryw i Gymru. Fe'i cynlluniwyd i adlewyrchu hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru ac ardal yr ysgol. Bwriadwyd i'r Cwricwlwm Cymreig ddatblygu ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth ddiwylliannol, lle a threftadaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ddull o ddysgu ar gyfer plant o 3 i 7 oed yng Nghymru. Hwn yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn yng Nghymru rhwng yr oedrannau hyn mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Eisteddfod** | Unrhyw un o nifer o wyliau blynyddol yng Nghymru, yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn flynyddol ym mis Awst, lle cynhelir cystadlaethau mewn cerddoriaeth, barddoniaeth, drama, a'r celfyddydau cain. Bydd ysgolion yn aml yn cynnal eu Heisteddfod eu hunain, ar Ddydd Gŵyl Dewi fel arfer, neu tua'r adeg honno. |
| **Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRhC)** | Fframwaith medrau yw hwn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Death yn statudol mewn ysgolion o Fedi 2013 ac mae'n cynnwys asesiad statudol yn erbyn y fframwaith o 2014. Fe'i cynlluniwyd i helpu athrawon ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc i ddysgwyr 5 i 14 oed. |
| **Urdd Gobaith Cymru (Urdd)** | Mudiad ieuenctid cyfrwng Cymraeg sy'n trefnu digwyddiadau celfyddydau a chwaraeon cystadleuol i gyfranogwyr iau, yn debyg i eisteddfod. Fe'i sefydlwyd ym 1922, a nod yr Urdd yw rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu yn y Gymraeg. |

**Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio ein harfarniadau**

Y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn ar yr ochr chwith isod yw'r rhai rydym yn eu defnyddio i ddisgrifio ein harfarniadau. Mae'r golofn ar yr ochr dde yn esbonio'r cyfrannau bras yn ymwneud â'r termau perthnasol.

| | |
|---|---|
| Bron pob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | dros 60% |
| Hanner neu tua hanner | yn agos at 50% |
| Lleiafrif | islaw 40% |
| Ychydig | islaw 20% |
| Ychydig iawn | llai na 10% |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Fiona Arnison AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Dyfrig Ellis AEM | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Mike Haines | Arolygydd Tîm |
| Karen Olds | Arolygydd Cymheiriaid |